WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2016 – **Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: May 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 103A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn gosod allan yr arfer i'w ddilyn wrth drin ceisiadau a ddisgwylir o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori gyda thrydydd partïon perthnasol. Yng nghyswllt y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y tîm a wnaeth y gwaith oedd Geraint Norman, Carol Moseley, Ann-Marie Harkin a Dave Thomas.

# Cynnwys


Crynodeb o'r adroddiad

Cyd-destun 5

Canfyddiadau allweddol 6

Argymhellion 10

Adroddiad manwl

Mae trefniadau sydd yn cynnal llywodraethiant da ar gael i raddau helaeth ac yn parhau i gael eu cryfhau, ond nid yw'r sefyllfa ariannol yn gynaliadwy ac y mae capasiti'r sefydliad, cysylltiadau rhwng rhaglenni a chynnal cyflymder newid yn heriau 14

Rheolaeth ariannol – ar waethaf mesurau brys a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf i gael cydbwysedd ariannol diwedd-blwyddyn, nid yw'r sefyllfa ariannol bresennol yn gynaliadwy, gyda bwlch cyllido sy'n cynyddu, a rhagolwg am orwariant diwedd-blwyddyn sylweddol am 2016-17 14

Cynllunio ariannol – mae trefniadau cynllunio ariannol ar gael, ond nid yw'r cysylltiadau rhwng cynllunio ariannol a nodau ehangach moderneiddio'r gwasanaeth wedi eu datblygu'n llawn, ac ni allodd y Bwrdd Iechyd osod cynllun tymor canol integredig (CTCI) oedd yn cydbwyso yn ariannol 14

Rheolaeth ariannol a stiwardiaeth – mae trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol a stiwardiaeth ar gael, ond mae angen gwell craffu ar reolaeth ariannol a sicrhau bod camau rheoli yn cael eu cymhwyso'n gadarn 16

Adrodd ariannol – mae trefniadau ar gael ar gyfer monitro ariannol, ond nid yw cynnwys, tryloywder a fformat adroddiadau ariannol i'r Bwrdd yn ddigon cadarn 17

Perfformiad ariannol - mae'r diffyg cyson o ran arbedion a gynlluniwyd a dibyniaeth ar gyllid ychwanegol i gadw'r ddysgl yn wastad yn arwydd o sefyllfa ariannol anghynaladwy, ac nid yw'r effaith ar gyflwyno gwasanaethau a pherfformiad yn y tymor byr na'r tymor hir yn glir 19

Llywodraethiant a sicrwydd – mae'r Bwrdd Iechyd Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei agwedd at gynllunio a'i drefniadau llywodraethiant ac yn ymdrin â rhai argymhellion blaenorol, ond mae capasiti'r sefydliad, cysylltiadau rhwng rhaglenni a chynnal cyflymdra newid yn heriau 20

Cynllunio strategol – mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei agwedd at gynllunio ond nid oes ganddo CTCI wedi ei gymeradwyo ar hyn o bryd, ac mae angen iddo gryfhau craffu, sicrhau capasiti digonol a sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng rhaglenni a blaenoriaethau 20

Effeithiolrwydd a sicrwydd y Bwrdd – mae trefniadau llywodraethiant a sicrwydd yn fras yn gadarn, er y gellid gwella mwy ar rai agweddau ac y mae newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn 2017 yn gyfle ac yn risg 29

Cynnydd wrth ymdrin ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol – gweithredodd y Bwrdd Iechyd rai o'r argymhellion a wnaed yn asesiad strwythuredig 2015, ond nid yw wedi datblygu camau yn ddigonol ar gyfer eraill, yn benodol y rhai sy'n ymwneud â chynllunio ac adrodd ariannol 33

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2016 35

# Crynodeb o'r adroddiad

## Cyd-destun

1 Mae asesiad strwythuredig yn archwilio trefniadau Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) sydd yn cefnogi llywodraethiant da a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu'r gwaith yn asesu cadernid trefniadau rheolaeth ariannol, pa mor ddigonol oedd y trefniadau llywodraethiant, rheolaeth galluogwyr allweddol sydd yn cefnogi'r defnydd effeithiol o adnoddau, a'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â materion gwella a oedd eisoes wedi eu hadnabod. Canfu ein gwaith yn 2015 fod trefniadau sydd yn cefnogi llywodraethiant da ar gael ond eu bod yn destun adolygu yng nghyd-destun strwythurau gweithredol newydd. Nid oedd yn edrych yn debygol y byddid yn cyrraedd cydbwysedd ariannol am 2015-16, gyda'r Bwrdd Iechyd yn wynebu bwlch cyllido cynyddol ynghyd â risgiau o ran gweithlu a chapasiti.

2 Mae gwaith asesiad strwythuredig yn 2016 eto wedi adolygu trefniadau rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth a'r cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion y flwyddyn flaenorol. Eleni, rydym hefyd wedi gwneud gwaith cymharol mewn tri maes. Sail i'r meysydd a ddewiswyd a'r cwmpas oedd yn sail o wybodaeth i'n dadansoddiad ni o faterion perthnasol i Gymru gyfan a thrafodaethau gydag Ysgrifenyddion Byrddau. Mae'r meysydd gwaith cymharol yn cynnwys yr isod:

- fformat adrodd ariannol i'r byrddau;
- trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau tymor canol integredig (CTCI); a monitro ac adrodd ar gyflawni'r cynlluniau [1]; ac
- agweddau ar gyfer mapio risgiau a sicrwydd a datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd[2].

3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion canfyddiadau ein harchwiliad lleol i'r Ymddiriedolaeth. Pan fyddwn wedi cwblhau'r adrodd archwiliad lleol, byddwn yn cwblhau dadansoddiadau Cymru-gyfan ar y tri maes gwaith cymharol, i rannu gyda sefydliadau'r GIG a fforymau Cymru-gyfan perthnasol, megis cyfarwyddwyr cyllid, cyfarwyddwyr cynllunio a grwpiau ysgrifenyddion byrddau. Bwriad yr agwedd hon yw cefnogi dysgu, trwy rannu agweddau ac arferion da ar draws sefydliadau'r GIG.

4 Seilir ein canfyddiadau ar gyfweliadau, arsylwi pwyllgorau, adolygu dogfennau a data perfformiad, canlyniadau gwybodaeth gan Ysgrifenyddion Byrddau a Chyfarwyddwyr Cynllunio a chanlyniadau arolwg o aelodau Byrddau. Ymatebodd rhyw 119 o aelodau Byrddau i'n harolwg, cyfradd ymateb o 59%. Yr oedd hyn yn cynnwys 15 ymateb (cyfradd ymateb o 68%) gan y Bwrdd Iechyd. Carem ddiolch i'r aelodau hynny o'r Bwrdd a ymatebodd i'n harolwg am eu hamser a'u cyfraniadau.

[1] Lle nad oes CTCI wedi ei gymeradwyo, gwnaethom ystyried y cynllun blynyddol.

[2] Mae fframwaith sicrwydd y bwrdd yn gosod allan y risgiau i gyrraedd yr amcanion corfforaethol, y camau mewnol i liniaru'r risgiau hynny a'r sicrwydd y mae'n rhaid i'r Bwrdd wybod fod y camau yn effeithiol a bod y risgiau yn cael eu rheoli.

.

5 Wynebodd y Bwrdd Iechyd nifer o heriau yn ystod 2016. Bu'n cwblhau'r gwaith datblygu sefydliadol yn dilyn trosi i'r strwythurau gweithredol newydd ddiwedd 2015 i wella llywodraethiant ac atebolrwydd, a gweithredu hefyd i wella perfformiad mewn nifer o feysydd allweddol. Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith i ganolbwyntio ar ddiwylliant a gwerthoedd y sefydliad, ar ansawdd a gwella diogelwch. Mae camau 'Gweithredu wedi Andrews[3]' i wella profiad y cleifion ac ansawdd y gwasanaeth yn awr wedi eu hymgorffori i drefniadau ansawdd a chyflwyno arferol. Gwnaed y gwaith hwn mewn amgylchedd ariannol heriol.

6 Gwelodd y Bwrdd Iechyd ei statws dan Drefniadau Dwysau ac Ymyriad GIG Cymru [4]yn cael eu dwysau gan Lywodraeth Cymru ym Medi 2016, o fonitro uwch i ymyriad wedi'i dargedu. Mae hyn yn arwydd o'r ffaith na chymeradwywyd eu cynllun tymor canol integredig (CTCI) yn 2016 ac o'r heriau ariannol a pherfformiad challenges sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar ymyriadau cefnogi a'u gweithredu i helpu i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â'r heriau hyn.

7 Yn ychwanegol at y materion ariannol a pherfformiad presennol, bydd y Bwrdd Iechyd yn  wynebu nifer o heriau ychwanegol yn 2017. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau sylweddol i aelodaeth y Bwrdd yn 2017, yr angen i gwrdd â gofynion deddfwriaethol newydd trwy well gweithio mewn partneriaeth, a sicrhau digon o gapasiti sefydliadol i reoli a gweithredu rhaglenni newid strategol a chomisiynu uchelgeisiol y Bwrdd Iechyd ar ddigon o gyflymdra.

# Canfyddiadau allweddol

8 Ein casgliad cyffredinol o waith asesiad strwythuredig 2016 yw bod trefniadau sy'n cynnal llywodraethiant da yn bodoli i raddau helaeth ac yn parhau i gael eu cryfhau, ond nid yw'r sefyllfa ariannol yn gynaliadwy ac y mae capasiti'r sefydliad, cysylltiadau rhwng rhaglenni a chynnal cyflymdra newid yn heriau. Crynhoir isod y rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn.

## Cynllunio a rheoli ariannol

9 Wrth adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol, canfuom, ar waethaf mesurau brys a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf i gael cydbwysedd ariannol diwedd-blwyddyn, nid yw'r sefyllfa ariannol bresennol yn gynaliadwy, gyda bwlch cyllido sy'n cynyddu, a rhagolwg am orwariant diwedd-blwyddyn sylweddol am 2016-17.

[3] Gweithredu Wedi Andrews

[4] Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru Mawrth 2014

### Cynllunio ariannol – mae trefniadau cynllunio ariannol ar gael, ond nid yw'r cysylltiadau rhwng cynllunio ariannol a nodau ehangach moderneiddio'r gwasanaeth wedi eu datblygu'n llawn, ac ni allodd y Bwrdd Iechyd osod cynllun tymor canol integredig (CTCI) oedd yn cydbwyso yn ariannol

10 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau a chamau rheoli i osod ei gyllidebau refeniw a chyfalaf. Mae'r rhain wedi aros i raddau helaeth yr un fath ag yn y blynyddoedd blaenorol, ond mae pwysau ariannol cynyddol wedi golygu, ar waethaf y trefniadau hyn, na allodd y Bwrdd Iechyd gytuno ar gynllun tymor canol integredig (CTCI) sy'n ariannol gytbwys yn 2016.

11 Mae rhagdybiaethau cyllidebol a chynlluniau gwella cost (CGC) yn sail i'r CTCI ac adroddir am risgiau ariannol fel rhan o'r broses gynllunio cyllidebau. Fodd bynnag, erys cyfran arwyddocaol o'r arbedion angenrheidiol bob blwyddyn heb eu nodi. Nid yw cyllideb y Bwrdd Iechyd ar sail sero, naill ai yn ei chyfanrwydd neu i rannau ar wahân. Hefyd, nid yw'r cysylltiadau rhwng y gyllideb, amcanion a chynlluniau eraill yn glir. Heb y rhain, mae'r gallu i weithredu cyllidebu sail-sero ac asesu effaith penderfyniadau ariannol yn anodd.

### Rheolaeth ariannol a stiwardiaeth – mae trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol a stiwardiaeth ar gael, ond mae angen gwell craffu ar reolaeth ariannol a sicrhau bod camau rheoli yn cael eu cymhwyso'n gadarn

12 Mae fframwaith o gamau rheoli ar gael, ac fe'i cefnogir gan adran Archwilio Mewnol ragweithiol a Phwyllgor Archwilio effeithiol. Mae gan y Bwrdd Iechyd swyddogaethau a chyfrifoldebau diffiniedig, sydd yn cyfrif am y newidiadau i strwythurau sefydliadol yn 2015-16.

13 Fodd bynnag, o ystyried yr heriau ariannol cynyddol a'r gwendidau presennol mewn adrodd ariannol i'r Bwrdd, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i sicrhau fod y camau rheoli ariannol yn cael eu cymhwyso'n gadarnach trwy drefniadau craffu cryfach. Mae cyfle hefyd i ddwyn ynghyd wybodaeth ariannol a pherfformiad a chraffu arno, gyda sicrwydd yn cael ei roi i'r Bwrdd.

### Monitro ac adrodd ariannol – mae trefniadau ar gael ar gyfer monitro ariannol, ond nid yw cynnwys, tryloywder a fformat adroddiadau ariannol i'r Bwrdd yn ddigon cadarn

14 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol, gydag adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd am berfformiad yn erbyn y gyllideb refeniw, adroddiadau monitro misol i Lywodraeth Cymru a chyfarfodydd herio misol gyda Chyfarwyddwyr Unedau.

15 Mae'r wybodaeth yr adroddir amdano i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn gyson, er i'm gwaith weld bod y rhagolygon ariannol a'r targedau arbedion yr adroddir amdanynt bob mis yn amrywio, sy'n ei gwneud yn anodd olrhain perfformiad yn erbyn targedau a osodwyd yn wreiddiol. Hefyd, nid oes fawr ddim adrodd am berfformiad yn erbyn y rhaglen gyfalaf i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth mewn sesiynau caeedig, ond yn cydnabod yr angen i wella cynnwys,

tryloywder a fformat ei adroddiadau ariannol adroddiadau, yn enwedig i'r Bwrdd agored, ac y mae'n cymryd camau i ymdrin â hyn.

Perfformiad ariannol – mae'r diffyg cyson o ran arbedion a gynlluniwyd a dibyniaeth ar gyllid ychwanegol i gadw'r ddysgl yn wastad yn arwydd o sefyllfa ariannol anghynaliadwy, ac nid yw'r effaith ar gyflwyno gwasanaethau a pherfformiad yn y tymor byr na'r tymor hir yn glir.

16 Cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol yn y tair blynedd ddiwethaf, ond dim ond wedi cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru a mesurau unwaith-am-byth. Ym Mis 9 2016-17, mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi gorwario £26.6 miliwn ac erys cyfran fawr o'i arbedion heb ei nodi. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn adrodd am ddiffyg diwedd-blwyddyn tebygol o £39 miliwn am 2016-17.

17 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro nac yn adrodd ar effaith rhaglenni gwella cost ar ansawdd naill ai yn y cyfnod cynllunio, trwy'r flwyddyn nac wedi diwedd y flwyddyn. Ymhellach, nid oes ystyriaeth o'r effaith ar amcanion tymor-hir fel rhan o fesurau unwaith-am-byth a gymerir bob blwyddyn er mwyn cyrraedd cydbwysedd ariannol.

## Llywodraethiant a sicrwydd

18 Wrth adolygu trefniadau llywodraethiant corfforaethol a sicrwydd y Bwrdd Iechyd, fe gawsom fod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei agwedd cynllunio a'i drefniadau llywodraethiant ac yn ymdrin â rhai argymhellion blaenorol, ond erys capasiti'r sefydliad, cysylltiadau rhwng rhaglenni a chynnal cyflymdra newid yn heriau.

Cynllunio strategol ac adrodd – mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei agwedd at gynllunio ond nid oes ganddo CTCI wedi ei gymeradwyo ar hyn o bryd, ac mae angen iddo gryfhau craffu, sicrhau capasiti digonol a sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng rhaglenni a blaenoriaethau

19 Ni fedrodd y Bwrdd Iechyd ddatblygu CTCI am 2016-19 yr oedd modd ei gymeradwyo oherwydd problemau perfformiad ac am nad oedd y cynllun yn ariannol gytbwys. Fodd bynnag, yn ystod 2016, CTCI mae trefniadau cynllunio wedi eu gwella, a'r gwaith i ddatblygu CTCI 2017-20 wedi cychwyn yn gynt nac yn y blynyddoedd blaenorol. Mae trefniadau i graffu ar ddatblygu a chyflwyno'r CTCI ar gael, mer bod angen cryfhau mwy arnynt, yn enwedig yng nghyswllt craffu gan is-bwyllgorau'r bwrdd ar gyflwyno a pherfformiad.

20 Mae trefniadau comisiynu'r Bwrdd Iechyd yn aeddfedu. Mae cynlluniau comisiynu yn canolbwyntio ar anghenion iechyd tymor-hir y boblogaeth, a da hynny, a pharatowyd canllawiau i gefnogi cynllunio'r CTCI presennol. Fodd bynnag, mae mwy y dylai'r Bwrdd Iechyd wneud i sicrhau'r canlynol: fod penderfyniadau comisiynu yn cael eu cydbwyso yn erbyn blaenoriaethau cyflwyno cyfredol; fod y cysylltiadau rhwng y fframwaith comisiynu a'r trefniadau cyflwyno yn glir ac yn rhedeg fel y dylent; a bod digon o gapasiti gan y sefydliad i reoli pensaernïaeth gyfredol y rhaglen gomisiynu, newid a chyflwyno.

Effeithiolrwydd a sicrwydd y Bwrdd – mae trefniadau llywodraethiant a sicrwydd yn fras yn gadarn, er y gellid gwella mwy ar rai agweddau ac y mae newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn 2017 yn gyfle ac yn risg

21 Wrth ddod i'r casgliad hwn, fe wnaethom ganfod y canlynol:

- **datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd:** mae gan y Bwrdd Iechyd system ddiffiniedig o sicrwydd ac y mae'n parhau i'w hadolygu a'i datblygu, er bod angen cyfoesi'r fframwaith rheoli perfformiad a bod cyfleoedd i ymestyn mapio risg a sicrwydd; ac
- **effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau:** y mae'r bwrdd a phwyllgorau yn gyffredinol yn gweithredu'n effeithiol, er bod angen mwy o amser i wreiddio newidiadau diweddar i rai pwyllgorau, ac y mae penodi aelodau newydd i'r bwrdd yn 2017 yn gyfle ac yn risg.

22 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i geisio a chael sicrwydd. Cafodd risgiau a sicrwydd lefel uchel eu mapio yn 2016, a sefydlwyd trefniadau llywodraethiant yn yr unedau cyflwyno newydd. Cafodd y fframwaith rheoli risg ei gyfoesi, er bod cyflwyno adolygiadau wythnosol o berfformiad y gwasanaethau aciwt wedi oedi'r adolygiad o'r fframwaith rheoli perfformiad oedd wedi ei gynllunio. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn ystyried mapio risg a sicrwydd pellach i helpu i ffurfio datblygiad parhaus ei fframwaith sicrwydd y bwrdd.

23 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd yn rhedeg yn effeithiol, gan gwrdd â'i ofynion am adrodd blynyddol a pharhau i hybu gwerthoedd y sefydliad a bod yn agored. Y mae'n ymwybodol yr erys mwy i'w wneud mewn nifer o feysydd gan gynnwys sicrhau ymateb yn brydlon i gwynion, a gwreiddio dysgu yn y sefydliad. Mae'r Pwyllgorau Archwilio ac Ansawdd a Diogelwch hefyd yn gweithredu'n effeithiol, gyda threfniadau sicrhau ansawdd wedi eu cryfhau a gwelliannau amlwg yn rhedeg y Pwyllgor Gweithlu. Fodd bynnag, mae newidiadau i aelodau annibynnol yn gyfle i adnewyddu ond hefyd yn risg i gysondeb, colli profiad ac effaith posib ar aelodaeth a threfniadau pwyllgorau. Bydd angen hefyd i'r Bwrdd Iechyd benodi Ysgrifennydd newydd i'r Bwrdd yn 2017.

### Cynnydd wrth ymdrin ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol – gweithredodd y Bwrdd Iechyd rai o'r argymhellion a wnaed yn asesiad strwythuredig 2015, ond nid yw wedi datblygu camau yn ddigonol ar gyfer eraill, yn benodol y rhai sy'n ymwneud â chynllunio ac adrodd ariannol

24 Cawsom fod sylw wedi ei roi i ymdrin â'r 10 argymhelliad o'r asesiad strwythuredig a wnaethom yn 2015, ac eithrio am ddau argymhelliad yn ymwneud â chynllunio ac adrodd ariannol. Fel arall, roedd cynnydd cyffredinol rhesymol wedi ei wneud, gyda chwech o'r wyth argymhelliad oedd weddill wedi eu trin a dau ar y gweill. Yr oedd sefydlu bwrdd llywodraethiant gwybodaeth a fforwm ansawdd a diogelwch wedi digwydd yn arafach na'r bwriad, er bod y camau hyn bellach wedi eu cwblhau. Fodd bynnag, bydd angen parhau i ganolbwyntio er mwyn gwreiddio'r trefniadau newydd hyn yn llawn, a gwneud newidiadau a gwelliannau eraill.

25 Fe welsom hefyd fod trefniadau wedi eu sefydlu i fonitro, craffu a herio ymateb y rheolwyr i argymhellion archwiliadau olrhain mewnol ac allanol. Derbynnir adroddiad olrhain archwiliad ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a chaiff ei ddefnyddio i graffu a herio cyflymdra cynnydd. Mae ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion asesiad strwythuredig 2015 yn fras yn gyson a'r statws yr adroddwyd amdano trwy'r adroddiad olrhain. Nodwn, fodd bynnag, y bu prydlondeb datblygu rhai o ymatebion y rheolwyr yn broblem yn 2016 a bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn mynd ati i weithio gyda'r arweinyddion gweithredol i wella'r sefyllfa hon.

# Argymhellion

26 Mae manylion argymhellion sy'n deillio o waith asesiad strwythuredig 2016 yn Arddangosyn 1. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd barhau i ganolbwyntio ar weithredu unrhyw argymhellion blaenorol nad ydynt eto yn gyflawn.

27 Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd fydd yn rhoi manylion am sut y bwriadant ymateb i'r argymhellion hyn yn cael ei gynnwys yn Atodiad 1 unwaith iddo gael ei ddatblygu a'i ystyried gan bwyllgor perthnasol y bwrdd.

Arddangosyn 1: Argymhellion 2016

| Argymhellion 2016 |
|---|
| **Ymdrin ag argymhellion rheolaeth ariannol nas ymdriniwyd â hwy**<br>A1 Sicrhau yr ymdrinnir â'r ddau argymhelliad heb ymdrin â hwy ers 2015 ynghylch cynllunio ac adrodd ariannol.<br>• Dyma hwy:<br>– A1 2015: Egluro'r rhagdybiaethau cynllunio ariannol sy'n sail i'r CTCI, gan gynyddu pwysau cost, bylchau cyllido yn lledu, a risg gyffredinol na fydd y CTCI yn ariannol gytbwys; ac<br>– A2 2015: Gwella adrodd ariannol i'r Bwrdd, i roi eglurhad cliriach am unrhyw newidiadau i'r sefyllfa ariannol, perfformiad ar gynlluniau arbedion a chamau unioni i ymdrin ag unrhyw lithriad. |
| **Cymeradwyo a monitro'r rhaglen gyfalaf**<br>A2 Datblygu rhaglen gyfalaf am 2017-18 a gymeradwyir gan y Bwrdd yn ffurfiol ac a gefnogir gan adrodd rheolaidd ar berfformiad ariannol a heb fod yn ariannol, risgiau, a chyflwyno'r rhaglen gyfalaf yn gyffredinol. |
| **Cryfhau craffu**<br>A3 Gweithredu ar gyfleoedd i gryfhau'r trefniadau craffu presennol:<br>a) Craffu ariannol: Ystyried sut y gellir craffu'n well ar wybodaeth ariannol ynghyd â darparu gwell gwybodaeth am berfformiad a mwy o sicrwydd i'r Bwrdd ar y sefyllfa ariannol, effaith penderfyniadau ariannol a bod camau rheoli ariannol yn cael eu cymhwyso'n gadarn.<br>b) Craffu ar CTCI: adolygu'r trefniadau presennol i sicrhau yr atebir gofyniad Fframwaith Cynllunio'r GIG am 2017-20 ar i is-bwyllgor craffu ar gynnydd a pherfformiad y CTCI yn llawn.<br>c) Craffu ar berfformiad: yn dilyn atal y Pwyllgor Perfformiad ac yng nghyd-destun newidiadau i'r aelodaeth annibynnol yn 2017, ail-asesu trefniadau craffu ar berfformiad ac a ddylai craffu aros yn un o swyddogaethau'r Bwrdd neu gael ei gefnogi gan drefniadau pwyllgor. |

| Argymhellion 2016 |
| --- |
| **Sefydlu cysylltiadau cliriach rhwng rhaglenni cynllunio, comisiynu a chyflwyno a digon o gapasiti i gynnal y trefniadau**<br>A4 Mynd ati i wneud y canlynol:<br>a) Sicrhau digon o herio trwy gyfrwng y Pwyllgor Strategaeth, Cynllunio a Chomisiynu am sut y cyrhaeddir penderfyniadau comisiynu a'u cydbwyso yn erbyn blaenoriaethau cyflwyno cyfredol.<br>b) Gwella eglurder a dealltwriaeth am benderfyniadau ynghylch ail-gomisiynu a datgomisiynu o fewn cylchoedd cynllunio a rôl y grŵp strategaeth gweithredol.<br>c) Cryfhau'r capasiti rheoli newid er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw ofynion sy'n deillio o ymyriad wedi ei dargedu.<br>d) Sicrhau gwell dealltwriaeth o'r bensaernïaeth, rhyngwynebau a blaenoriaethau cymharol ar draws rhaglenni strategaeth, comisiynu, newid a chyflwyno, gyda digon o gapasiti sefydliadol i roi gwasanaeth i'r trefniadau rheoli. Dylai hyn gynnwys adolygu'r gofynion cyfredol o ran cyfarfodydd. |
| **Datblygu'r fframwaith ymwneud**<br>A5 Cyfoesi'r fframwaith ymwneud a chyfathrebu yn ychwanegol at gwblhau datblygu cynllun ymwneud strwythuredig ar gyfer datblygu'r CTCI |
| **Cryfhau mwy ar adrodd cyhoeddus hygyrch**<br>A6 Adolygu'r wefan i sicrhau hygyrchedd, rhwyddineb llywio a bod cynnwys y we (gan gynnwys polisïau a dogfennau cyhoeddedig) yn gyfoes. |
| **Cryfhau monitro ymatebion  y rheolwyr i adroddiadau Unedau Cyflwyno**<br>A7 Datblygu trefniadau i oruchwylio a chraffu ar adroddiadau Unedau Cyflwyno ac ymatebion cysylltiedig y rheolwyr. |

28 Yn ychwanegol at yr argymhellion hyn, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gynnal cyflymdra wrth wreiddio'r newidiadau i drefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethiant gwybodaeth a ddatblygwyd yn ystod 2016, fel y gwelir yn Arddangosyn 9.

29 Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn bwrw ymlaen â nifer o weithgareddau gwella, ac y mae a wnelo rhai o'r rhain â chamau oedd yn digwydd ers ein hargymhellion yn 2015.Yn eu plith mae:

- adolygu strwythurau corfforaethol yn dilyn yr ailstrwythuro gweithredol yn 2015, fel bod swyddogaethau a gallu cyfarwyddiaethau corfforaethol yn cael eu deall yn glir yng nghyswllt swyddogaethau, cyfrifoldebau ac adnoddau unedau;
- adolygiad wedi gweithredu o'r strwythurau sefydliadol a'r trefniadau llywodraethiant diwygiedig (a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer Medi 2016) unwaith i bawb gael eu recriwtio i is-strwythurau'r unedau cyflwyno;
- adolygu a chyfoesi'r fframwaith rheoli perfformiad; ac

- ehangu ar y mapio risg a sicrwydd i helpu i lunio datblygiad parhaus fframwaith datblygu'r bwrdd.

30 Mae ein canfyddiadau manwl yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau sydd yn cynnal llywodraethiant da ar gael i raddau helaeth ac yn parhau i gael eu cryfhau, ond nid yw'r sefyllfa ariannol yn gynaliadwy ac y mae capasiti'r sefydliad, cysylltiadau rhwng rhaglenni a chynnal cyflymder newid yn heriau

31 Mae manylion y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn isod.

### Rheolaeth ariannol –ar waethaf mesurau brys a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf i gael cydbwysedd ariannol diwedd-blwyddyn, nid yw'r sefyllfa ariannol bresennol yn gynaliadwy, gyda bwlch cyllido sy'n cynyddu, a rhagolwg am orwariant diwedd-blwyddyn sylweddol am 2016-17

32 Mae ein gwaith asesiad strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y camau mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i gyrraedd cydbwysedd ariannol a helpu i fod yn ariannol gynaliadwy yn y tymor hwy. Yr ydym wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, yr agwedd at gynllunio ariannol, camau rheoli ariannol a stiwardiaeth, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Yr ydym hefyd wedi ystyried y cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion blaenorol ynghylch rheolaeth ariannol. Gwelir ein canfyddiadau isod.

#### Cynllunio ariannol – mae trefniadau cynllunio ariannol ar gael, ond nid yw'r cysylltiadau rhwng cynllunio ariannol a nodau ehangach moderneiddio'r gwasanaeth wedi eu datblygu'n llawn, ac ni allodd y Bwrdd Iechyd osod cynllun tymor canol integredig (CTCI) oedd yn cydbwyso yn ariannol

33 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau a chamau rheoli i osod ei gyllidebau refeniw a chyfalaf. Mae'r rhain wedi aros i raddau helaeth yr un fath ag yn y blynyddoedd blaenorol, ond mae pwysau ariannol cynyddol wedi golygu, ar waethaf y trefniadau hyn, na allodd y Bwrdd Iechyd gytuno ar gynllun tymor canol integredig (CTCI) sy'n ariannol gytbwys yn 2016.

34 Ar gyfer 2015-16, cyfanswm y bwlch cyllido oedd £42.5 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn, ac yr oedd angen £22.7 miliwn o arbedion. O'r lefel arbedion angenrheidiol hwn, nodwyd gwerth £20.2 miliwn o arbedion posib erbyn diwedd y flwyddyn, er na chafwyd adrodd cyson am y bwlch yn yr arbedion oedd wedi eu hadnabod, fel y nodir isod yn adran 'adrodd ariannol' yr adroddiad hwn. Yr union arbedion a gafwyd yn 2015-16 oedd £16.1 miliwn (80%). Caewyd gweddill y bwlch cyllido trwy fesurau eraill unwaith-am-byth, enillion cyfrifeg a chyllid arall, nad oedd yn gylchol, gan Lywodraeth Cymru. Felly er i'r Bwrdd Iechyd gyrraedd ei dargedau ariannol am 2015-16, nid yw hyn yn sefyllfa ariannol gynaliadwy at y dyfodol. Ar

gyfer 2016-17, mae'r blwch cyllido yn £65.6 miliwn ac y mae angen arbedion o £45.5 miliwn, gydag anghydbwysedd sydd weddill o £20.1 miliwn yn y cynllun ariannol.

35 Dros y blynyddoedd diwethaf, gwnaethom sylw ar y graddau y mae cysylltiad rhwng cyllid, gwasanaethau ac amcanion sefydliadol fel bod effaith llawn penderfyniadau yn hysbys. Fel yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw cyllideb y Bwrdd Iechyd ar sail sero, naill ai yn ei chyfanrwydd nac yn y rhannau ar wahân. Hefyd, nid yw'r cyswllt rhwng y gyllideb, amcanion a chynlluniau eraill yn glir. Heb y rhain, mae'r gallu i weithredu cyllidebu sail-sero ac asesu effaith penderfyniadau ariannol yn anodd.

36 Mae rhagdybiaethau cyllidebol a chynlluniau gwella cost (CGC) yn sail i'r CTCI ac adroddir am risgiau ariannol fel rhan o'r broses gynllunio cyllidebau. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, dibynnodd y Bwrdd Iechyd ar symiau mawr o gyllid y Llywodraeth Cymru i gadw'r ddysgl yn wastad. Hefyd, mae ei lefel angenrheidiol o arbedion yn 2016-17 (£45.5 miliwn) yn fwy nac y llwyddodd y Bwrdd Iechyd i'w wneud dros y blynyddoedd diwethaf, fel yr amlinellir yn Arddangosyn 2. O'r £45.5 miliwn o arbedion sydd eu hangen yn 2016-17, nodwyd £30.7 miliwn o'r arbedion oedd eu hangen yn y flwyddyn ar ddiwedd Rhagfyr 2016 (mis 9), gyda £15 miliwn eto i'w nodi. Nid oes cynlluniau cadarn wrth gefn, a chodir cwestiynau am realaeth y lefelau arbedion ac a ellir llwyddo i gyflawni'r cynllun.

Arddangosyn 2: Union Arbedion a wnaed 2012-13 i 2015-16

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Arbedion a gyllidebwyd | £24.4m | £28.8m | £23.5m | £20.196m | £45.5m |
| Union arbedion | £21.4m | £26.8m | £18.7m | £16.1m | |
| Diffyg mewn arbedion | £2.9M | £2.0m | £4.8m | £4.1m | |
| % arbedion a wnaed | 88% | 93% | 80% | 80% | |

Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau monitro ariannol Llywodraeth Cymru

37 Oedd y rhaglen gyfalaf am 2015-16 a chyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd ei derfyn adnoddau cyfalaf gyda thanwariant o £37,000. Fodd bynnag, mae toriadau mewn cyllidebau cyfalaf dros y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â phwysau ar gyllidebau refeniw, wedi herio gallu'r Bwrdd Iechyd i ymdrin â phroblemau cynnal sydd wedi cronni ac adnewyddu asedau.

38 Cymeradwyodd y Tîm Gweithredol raglen gyfalaf 2015-16 ym Mehefin 2015 ond ni chafodd ei chymeradwyo yn ffurfiol gan y Bwrdd. Cynhwyswyd rhaglen gyfalaf 2016-17 fel rhan o CTCI 2016-19 na chymeradwywyd chwaith gan y Bwrdd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar gynnydd ariannol nac anariannol ar y rhaglen

gyfalaf i'r Bwrdd, sy'n ei gwneud yn anodd asesu cynnydd a'r risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu rhaglen gyfalaf am 2017-18, a gaiff ei chymeradwyo gan y Bwrdd ac a gefnogir gan drefniadau cadarn i adrodd am gynnydd.

39 Er bod prosesau ar gael i osod a monitro'r rhaglen gyfalaf, mae proffil y gwariant yn gogwyddo'n drwm tuag at ddiwedd y flwyddyn. Dangosodd Adroddiad Monitro Mis 12 2015-16, o'r £40.4 miliwn o wariant cyfalaf am y flwyddyn gyfan, fod £10.3 miliwn (25%) wedi ei wario yn y mis olaf. Mae hyn yn wir am gynlluniau Cymru-gyfan a chynlluniau dewisol, er ei fod yn fwy amlwg i'r cynlluniau dewisol gyda £4.2 miliwn (43%) o gyfanswm y gwariant dewisol yn y mis olaf, o gymharu â £6.1 miliwn (20%) o'r cynlluniau Cymru-gyfan.

40 Yr ydym yn cydnabod fod cyllid cyfalaf yn aml yn cael ei gymeradwyo yn hwyr yn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd yn dda yn y broses fidio 'Cymru-gyfan', gyda chynigion yn cael eu datblygu ymlaen llaw er mwyn manteisio ar unrhyw arian cyfalaf ddaw ar gael yn hwyr. Fodd bynnag, mae i wario swm sylweddol o'r rhaglen gyfalaf, gan gynnwys cyllid dewisol, ym mis olaf y flwyddyn ariannol oblygiadau i gynllunio effeithiol a'r potensial i roi gwerth gwael am arian a phenderfyniadau'n cael eu cymryd ar frys.

41 Yn 2015 fe wnaethom yr argymhelliad canlynol ynghylch cynllunio ariannol. Mae Arddangosyn 3 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 3: Cynnydd ar argymhelliad cynllunio ariannol 2015

| Argymhelliad 2015 | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|
| A1 | Egluro'r rhagdybiaethau cynllunio ariannol oedd yn sail i CTCI 2016-19, o ystyried pwysau cost cynyddol, bwlch cyllido sy'n lledu a'r risg gyffredinol na fydd y cynllun yn cydbwyso'n ariannol. | Ni chyfarfuwyd â'r argymhelliad hwn. Er bod mwy o ddogfennaeth ynghylch y rhagdybiaethau a osodwyd, nid oes CTCI cymeradwy a chymwys ar gael. |

## Rheolaeth ariannol a stiwardiaeth – mae trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol a stiwardiaeth ar gael, ond mae angen gwell craffu ar reolaeth ariannol a sicrhau bod camau rheoli yn cael eu cymhwyso'n gadarn

42 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith o swyddogaethau a chyfrifoldebau am reolaeth ac atebolrwydd ariannol, i gadw mewn cof y newidiadau i strwythurau sefydliadol yn 2015-16 ac sy'n sail i gyfarwyddiadau ariannol sefydlog, gorchmynion sefydlog a chynllun dirprwyo. Mae gweithgareddau a phrosesau rheoli priodol ar gael sydd yn cael eu hadolygu'r rheolaidd gan yr Archwilwyr Mewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, sy'n cyfarfod yn ddeufisol, yn gweithredu'n effeithiol ac yn cyfrannu at y fframwaith rheoli ariannol.

43 Mae'r risgiau o golledion ariannol yn cael eu hasesu a'u lliniaru gan y Bwrdd Iechyd. Mae swyddog Gwrth-Dwyll Lleol unswydd ar gael sydd yn mynychu ac yn adrodd yn rheolaidd i bob Pwyllgor Archwilio. Mae gan y Bwrdd Iechyd Bolisi

Gwrth-Dwyll a Chwythu'r Chwiban a threfniadau priodol am ymgyfreithia a hawliadau trwy Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru.

44 Fodd bynnag, o ystyried yr heriau ariannol cynyddol a'r gwendidau presennol mewn adrodd ariannol i'r Bwrdd (fel y trafodir isod), mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i sicrhau bod y trefniadau rheoli ariannol yn cael eu cymhwyso'n gadarn. Mae cyfle hefyd i ddwyn gwybodaeth ariannol a pherfformiad ynghyd a chraffu arnynt ar lefel pwyllgorau'r Bwrdd, gyda sicrwydd yn cael ei roi i'r Bwrdd. Byddai angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried y fforwm fwyaf priodol i graffu'n well ar reolaeth ariannol, camau rheoli a pherfformiad.

## Monitro ac adrodd ariannol – mae trefniadau ar gael ar gyfer monitro ariannol, ond nid yw cynnwys, tryloywder a fformat adroddiadau ariannol i'r Bwrdd yn ddigon cadarn

45 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar gyfer adrodd a monitro ariannol gydag adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd am berfformiad yn erbyn y gyllideb refeniw, adroddiadau monitro misol i Lywodraeth Cymru a chyfarfodydd herio misol gyda Chyfarwyddwyr Unedau. Gall rheolwyr gwasanaeth gyrchu gwybodaeth ariannol ar sail fisol ac er bod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio 'Qlikview' i alluogi rheolwyr i gyrchu gwybodaeth ariannol yn gynt, cyfyngedig yw'r defnydd o wybodaeth amser real.

46 Er i ni weld fod y wybodaeth yr adroddir amdano i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru (trwy'r adroddiadau monitro) yn gyson, mae gwybodaeth yn cael ei gyfleu mewn dau fformat, ac yn newid o fis i fis. Dengys adolygiad o'r adroddiadau misol nad oes adrodd am ffigwr cyson y gellir olrhain perfformiad yn ei erbyn. Nid yw'n glir chwaith beth sy'n cael ei gadw wrth gefn. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn monitro'r sefyllfa yn erbyn yr hyn a osodwyd yn wreiddiol ac a gymeradwywyd ar ddechrau'r flwyddyn fel rhan o'r gyllideb a'r CTCI. Mae hefyd yn ei gwneud yn anodd i aelodau'r Bwrdd herio'r sefyllfa'n effeithiol a chwestiynau cadernid y rhagolygon diwedd blwyddyn.

47 Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 2, gwnaethom waith cymharol i adolygu fformat adrodd ariannol i Fyrddau ledled Cymru. Mae adroddiadau ariannol i'r Bwrdd yn datgan y gorwariant cyfredol a chronnus a'r sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu, a'r gofyniad i'r Bwrdd weithredu. Fodd bynnag, nid oedd agweddau eraill o'r adroddiad ariannol sydd ar gael yn gyhoeddus i'r Bwrdd yn cymharu'n dda. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud yr adroddiadau cyllid i'r Bwrdd yn gliriach ac yn fwy tryloyw, ac ymdrin â'r gwendidau isod:

- Crynodeb fer iawn a roddir gan yr adroddiad, heb ddiffiniad na chynnwys targedau ariannol statudol na gweinyddol na dangosyddion perfformiad allweddol (DPI) eraill.
- Mae rhyw draean o'r adroddiad yn canolbwyntio ar sefyllfa dyledwyr hynafol, sy'n risg arwyddocaol i'r Bwrdd Iechyd.
- Nid oes dashfwrdd i grynhoi perfformiad ariannol, eithriadau i amlygu meysydd pryder allweddol na defnydd graffigau i ddarlunio tueddiadau neu i helpu i ddehongli.

- Nid oes fawr ddim mewnwelediad nac esboniad o'r sefyllfa ariannol, dim ar risgiau allweddol, arbedion, sefyllfa arian, sbardunau cost allweddol na chysylltiadau i gyflwyno/gweithgaredd gwasanaethau. Mae'r manylion am resymau dros amrywiadau cysylltiedig â'r perfformiad ariannol cyffredinol yn wael.
- Ychydig o wybodaeth sy'n cael ei roi am berfformiad cynlluniau arbedion na'r rhesymau am unrhyw danwario.

48 Yn ychwanegol at yr adroddiadau cyllid deufisol a gyflwynir i'r Bwrdd yn gyhoeddus, darperir adroddiadau ariannol manylach hefyd i'r Bwrdd 'mewn-pwyllgor'. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau mewn-pwyllgor hyn ar gael i'r cyhoedd ac er eu bod yn rhoi mwy o fanylion am y wybodaeth yr adroddir amdano'n gyhoeddus, gallant fod yn fwy cynhwysfawr. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella cynnwys, tryloywder a fformat ei adroddiadau ariannol i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd, yn cydnabod hyn, ac y mae camau'n cael eu cymryd eisoes i gryfhau adrodd ariannol y Bwrdd.

49 Cyfyngedig hefyd yw adrodd cyfalaf i'r Bwrdd. Er bod swyddogion yn monitro'r rhaglen gyfalaf yn fisol, nid yw monitro'r rhaglen gyfalaf yn eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd. Mae adroddiadau i'r Bwrdd ar berfformiad y rhaglen gyfalaf yn ad hoc ac y mae angen cysylltu gwybodaeth fo'r cyfarwyddiaethau perthnasol yn well. Dangosodd ein hadolygiad o adroddiadau monitro cyfalaf fod y rhain yn fwy o gyfoesiadau ar sefyllfa a chynnydd cynlluniau cyfalaf yn hytrach na pherfformiad ariannol yn erbyn y rhaglen a'r rhesymau dros unrhyw amrywio. O'r herwydd, cyfyngedig yw'r wybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd o ran monitro'r rhaglen gyfalaf.

50 Mae cyfle i integreiddio'r wybodaeth ariannol a pherfformiad yn well i gryfhau adrodd, craffu a sicrwydd y Bwrdd. Mae'r ffaith fod adrodd ar gyllid, perfformiad a hefyd wybodaeth am y gweithlu ar wahân ar hyn o bryd hefyd yn ei gwneud yn anodd craffu ar effaith penderfyniadau ariannol mewn meysydd megis gweithlu a pherfformiad, a vice versa.

51 Yn 2015 fe wnaethom yr argymhelliad isod yng nghyswllt adrodd ariannol. Mae Arddangosyn 4 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 4: Cynnydd ar argymhelliad 2015 ar adrodd ariannol

| Argymhelliad 2015 | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|
| A2 | Gwella adrodd ariannol i'r bwrdd [a'r byrddau/grwpiau gweithredol perthnasol], i roi esboniad cliriach am unrhyw newidiadau i safbwynt ariannol, perfformiad ar gynlluniau arbed a chamau unioni i ymdrin ag unrhyw lithriad. | Ni weithredwyd ar yr argymhelliad hwn. Mae adrodd ariannol i raddau helaeth yr un fath â 2015 ac nid yw'n rhai digon o fewnwelediad i aelodau'r Bwrdd allu monitro a herio perfformiad ariannol. Mae'r Bwrdd yn cydnabod fod angen gwneud mwy i wella eglurder a thryloywder yr adroddiadau cyllid mae'n dderbyn. Mae lle hefyd i integreiddio adrodd am gyllid, perfformiad a gweithlu yn well. |

## Perfformiad ariannol – mae'r diffyg cyson o ran arbedion a gynlluniwyd a dibyniaeth ar gyllid ychwanegol i gadw'r ddysgl yn wastad yn arwydd o sefyllfa ariannol anghynaliadwy, ac nid yw'r effaith ar gyflwyno gwasanaethau a pherfformiad yn y tymor byr na'r tymor hir yn glir

52 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyrraedd cydbwysedd ariannol ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, gwnaed hyn yn unig ar ôl derbyn symiau mawr o gyllid heb fod yn gylchol gan Lywodraeth Cymru, a mesurau unwaith-am-byth ac enillion cyfrifeg a nodwyd yn y flwyddyn i gau'r bwlch cyllido, fel y gwelir yn Arddangosyn 5.

Arddangosyn 5: Cau'r bwlch ariannol 2013-14 to 2015-16

| Blwyddyn | Camau a gymerwyd i gau'r bwlch cyllido i gadw'r ddysgl yn wastad | | | | | Sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Arbedion a wnaed | Cynhyrchu incwm/osgoi cost | Cyllido ychwanegol gan Lywodraeth Cymru | Enillion cyfrifeg /arian wrth gefn/ arbedion newydd | Cyfanswm camau i gau bwlch | Gwarged |
| 2013-2014 | £26.8m | £6m | £24.7m | £6m | **£63.4m** | £-0.09m |
| 2014-2015 | £18.7m | £10m | £26.1m | £6.5m | **£61.2m** | £-0.1m |
| 2015-2016 | £16.1m | £0 | £43m | £43.1m | **£102m** | £-0.086m |

Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau monitro ariannol Llywodraeth Cymru

53 Nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud yr arbedion a gynlluniwyd ganddynt yn yr un o’r pedair blynedd diwethaf. Ym mis 9 2016-17, yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi £30.7 miliwn o arbedion. Fodd bynnag, mae hyn yn dal yn fyr o gyfanswm yr arbedion sydd eu hangen o £45.5 miliwn ac yr oedd £5.8 miliwn yn fyr o gyflwyno’r arbedion a nodwyd. Ym Mis 9, yr oedd y Bwrdd Iechyd hefyd yn adrodd am orwariant o £26, gyda rhagolwg am orwariant diwedd-blwyddyn o £39 miliwn.

54 Yr ydym eisoes wedi adrodd uchod am yr anghysondeb mewn adrodd am wybodaeth ariannol ac y mae hyn, yr union berfformiad a’r ddibyniaeth ar gyllid ychwanegol a mesurau unwaith-am-byth, yn golygu nad yw’r sefyllfa ariannol yn awr yn gynaliadwy.

55 Nid yw’r Bwrdd Iechyd yn monitro nac yn adrodd ar effaith cynlluniau gwella cost ar ansawdd, naill ai yn y cyfnod cynllunio, trwy gydol y flwyddyn nac ar ddiwedd y flwyddyn. Ymhellach, mae dryswch ynghylch a yw arbedion a wneir yn gallu cael eu troi’n arian ai ynteu arbedion mewn enw yn unig ydynt, ac ni roddir ystyriaeth i’r effaith ar amcanion tymor hwy y sefydliad fel rhan o’r mesurau unwaith-am-byth a gymerir bob blwyddyn i gyrraedd cydbwysedd ariannol.

## Llywodraethiant a sicrwydd – mae’r Bwrdd Iechyd Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei agwedd at gynllunio a’i drefniadau llywodraethiant ac yn ymdrin â rhai argymhellion blaenorol, ond mae capasiti’r sefydliad, cysylltiadau rhwng rhaglenni a chynnal cyflymdra newid yn heriau

56 Archwiliodd ein gwaith asesiad strwythuredig yn 2016 drefniadau’r Bwrdd Iechyd i ddatblygu CTCI ac adrodd am gyflwyno’r cynllun, a’r agwedd at ddatblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd. Yr ydym hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd a’i strwythurau llywodraethiant a’r cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion blaenorol ein hasesiad strwythuredig ynghylch y meysydd hyn. Mae ein canfyddiadau i’w gweld isod.

### Cynllunio strategol ac adrodd – mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei agwedd at gynllunio ond nid oes ganddo CTCI wedi ei gymeradwyo ar hyn o bryd, ac mae angen iddo gryfhau craffu, sicrhau capasiti digonol a sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng rhaglenni a blaenoriaethau

57 Seilir y canfyddiadau sy’n sail i’r casgliad hwn ar ein hadolygiad o agwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio strategol[5], a threfniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflwyno’r cynllun. Yr ydym hefyd wedi ystyried y trefniadau sy’n cefnogi cyflwyno rhaglenni datblygu strategol a newid, a’r cynnydd a wnaed wrth ymdrin ag argymhellion blaenorol ynghylch cynllunio strategol.

[5] Nid yw gwaith archwilio wedi dyblygu gwaith craffu Llywodraeth Cymru ar y CTCI, ond mae wedi ystyried camau a gymerwyd gan gyrff y GIG mewn ymateb i unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru ar y cynllun neu amodau cymeradwyo’r cynllun.

Mae trefniadau cynllunio a chomisiynu yn datblygu, ond nid oes CTCI wedi ei gymeradwyo ar hyn o bryd, ymddengys y capasiti cynllunio yn gyfyngedig, ac mae angen alinio blaenoriaethau comisiynu a chyflwyno yn gliriach

58 Bu gan y Bwrdd Iechyd CTCI cymeradwy ar gael dros y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf (2014-15 a 2015-16). Mae cytundeb bras ymysg aelodau'r bwrdd a ymatebodd i'n harolwg fod y Bwrdd Iechyd wedi gwella ei agwedd tuag at gynllunio o ganlyniad i Fframwaith Cynllunio'r GIG. Fodd bynnag, ni fedrodd y Bwrdd Iechyd ddatblygu CTCI y gellid ei gymeradwyo yn 2016 oherwydd problemau perfformiad ac am nad oedd y cynllun yn ariannol gytbwys. Felly, ni chymeradwywyd CTCI 2016-19 gan Lywodraeth Cymru na'r Bwrdd.

59 Yn ystod 2016, parhaodd y Bwrdd Iechyd i wella ei drefniadau cynllunio CTCI. Y Cyfarwyddwr Strategaeth sydd â chyfrifoldeb gweithredol cyffredinol dros ddatblygu CTCI gyda chymorth Cyfarwyddwr Strategaeth Cynorthwyol, Pennaeth Datblygu a Gweithredu CTCI sydd yn cyd-gordio datblygu'r cynllun. Mae adrannau corfforaethol megis iechyd cyhoeddus, gweithlu, cyfalaf, gwybodeg, ansawdd a chyllid hefyd yn ymwneud trwy'r tîm craidd CTCI sydd yn cwrdd yn rheolaidd ac yn adrodd i'r Grŵp Strategaeth Gweithredol.

60 Cychwynnodd gwaith ar CTCI 2017-20 yn gynt eleni er mwyn caniatáu cyfnod hwy i gyflwyno adborth gan unedau, blaenoriaethu a mireinio'r cynllun. Comisiynwyd Cynllun Iechyd Cyhoeddus corfforaethol hefyd eleni, i'r un amserlenni a chynlluniau cyflwyno'r unedau a drafftiau o gyflwyniadau gan yr adrannau corfforaethol a nodwyd uchod. Dylai'r cyfnod fymryn yn hwy ar gyfer cynllunio hefyd helpu i sicrhau fod gan y Bwrdd cyfan ddigon o gyfle i graffu ac i herio ar y CTCI cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

61 Mae tîm craidd y CTCI yn cefnogi datblygu cynlluniau cyflwyno unedau 'o'r gwreiddiau i fyny' sydd yn sail i'r CTCI sefydliadol, gan raeadru canllawiau (sy'n adlewyrchu Canllawiau Cynllunio GIG Cymru ac yn hybu egwyddorion gofal iechyd darbodus) a gweithdai ar gyfer unedau gweithredol. Fodd bynnag, dywedir fod y capasiti cynllunio yn gyfyngedig ac ar waethaf y swydd gynllunio canolog ychwanegol, ni fedrodd y tîm cynllunio gyflwyno model partner busnes i gynnal a datblygu'r capasiti cynllunio gweithredol, fel sy'n bod ar gyfer y swyddogaethau cyllid ac AD. Mae adeiladu capasiti a sgiliau cynllunio yn her y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ymdrin ag ef.

62 Fel strwythurau datganoledig, mae gofyn i unedau ddefnyddio eu mecanweithiau ymwneud lleol â staff a rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu cynllun, ac y mae cynllun pob uned yn disgrifio'r ymwneud a ddigwyddodd. Mae gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Ymwneud a Chyfathrebu cyffredinol, ond mae'n hwyr yn cael ei adolygu. Yn ychwanegol at gyfoesi'r fframwaith presennol, mae'r Bwrdd Iechyd am ddatblygu cynllun ymwneud strwythuredig ar gyfer datblygu'r CTCI.

63 Mae trefniadau comisiynu'r Bwrdd Iechyd yn aeddfedu, gyda sefydlu chwe bwrdd comisiynu a chanllawiau comisiynu wedi eu paratoi i gefnogi cynllunio ar gyfer datblygu CTCI 2017-20. Mae cynlluniau comisiynu yn canolbwyntio ar anghenion iechyd tymor-hir y boblogaeth, a da hynny, a pharatowyd canllawiau i gefnogi cynllunio'r CTCI presennol. Fodd bynnag, mae mwy y dylai'r Bwrdd Iechyd wneud i

sicrhau'r canlynol: fod penderfyniadau comisiynu yn cael eu cydbwyso yn erbyn blaenoriaethau cyflwyno cyfredol. Bydd yn bwysig i'r Pwyllgor Strategaeth, Cynllunio a Chomisiynu herio sut y gwneir penderfyniadau comisiynu a chydbwyso hyn yn erbyn blaenoriaethau cyflwyno cyfredol.

64 Mae ansicrwydd gweithredol hefyd ynghylch ail-gomisiynu a/neu ddatgomisiynu yn y cylch cynllunio presennol. Dylai'r Grŵp Strategaeth Gweithredol misol a gyflwynwyd yn ddiweddar helpu i ymdrin â hyn. Fodd bynnag, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y trefniadau hyn a'r rhyngwynebau rhwng strwythurau comisiynu a chyflwyno yn glir ac yn cael eu deall yn well ar draws y sefydliad. Dengys cyfweliadau a gynhaliwyd fel rhan o'n gwaith ar yr asesiad strwythuredig ddiffyg dealltwriaeth a phryderon am ddiffyg cyswllt rhwng y fframwaith gomisiynu a threfniadau cyflwyno.

65 Gosododd y Bwrdd Iechyd gyfeiriad strategol uchelgeisiol i gynyddu iechyd, cyfoeth a lles pobl yn ne-orllewin Cymru, gyda rhaglen ARCH[6] yn darparu'r strategaeth tymor-hir i'r Bwrdd Iechyd ac economi iechyd ehangach y rhanbarth. Mae achos busnes llawn ARCH wrthi'n cael ei ddatblygu ac fe'i cyflwynir i Lywodraeth Cymru yn 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod, fodd bynnag, fod arno angen cynllun pontio rhwng CTCI tair-blynedd ac amcanion ARCH at y tymor hwy.

66 Felly, yn ychwanegol at ddatblygu CTCI 2017-20, bu'r Bwrdd Iechyd yn datblygu strategaeth 10-mlynedd a dderbynnir gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi comisiynu gwaith modelu capasiti ar ei wasanaethau aciwt fel sail i gynllunio at y dyfodol. Y mae ar hyn o bryd yn adeiladu ar ddefnyddio'r wybodaeth hon, er bod capasiti dadansoddeg yn cyfyngu ar hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r angen i ystyried modelu capasiti tebyg ar gyfer ei wasanaethau gofal sylfaenol ac iechyd meddwl.

### Mae trefniadau craffu ar y CTCI ar gael gyda lle i gryfhau mwy

67 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar gynllun gweithredol blynyddol (CBB) am 2016-17. Seilir hyn ar flwyddyn gyntaf CTCI 2016-19 nas cymeradwywyd, er bod y sefyllfa ariannol anghytbwys wedi creu peth ansicrwydd am statws ei gymeradwyo. Mae cynllun gweithredu ar gyfer ei gyflwyno yn y flwyddyn ar gael ac yn cael ei gefnogi trwy drefniadau rheoli perfformiad y sefydliad, a drafodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Gwelsom fod trefniadau rhesymol ar gael i adrodd am gyflwyno'r CTCI/CBB trwy gyfrwng adroddiad olrhain y CTCI, tra bod mwyafrif aelodau'r bwrdd a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno gyda'r canlynol:

- mae swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd am gyflwyno amcanion a chamau allweddol yn glir;
- derbynnir gwybodaeth briodol; ac
- mae digon o amser yn cael ei neilltuo i graffu ar y CTCI/CBB yng nghyfarfodydd perthnasol y bwrdd a phwyllgorau.

[6] ARCH: A Regional Collaboration for Health

68 Ym Mai 2016, ataliodd y Bwrdd y Pwyllgor Perfformiad a rhoi yn ei le y trefniadau eraill hyn i graffu ar y CTCI:

- pwyllgor strategaeth, cynllunio a chomisiynu (PSCCh) i oruchwylio a chraffu ar ddatblygu'r CTCI;
- aelodau annibynnol i herio ar gyflwyno a pherfformiad y CTCI/CBB yn cael ei wneud gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd mewn cyfarfodydd misol o'r tîm gweithredol; ac
- adrodd ddwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd ar gynnydd y CTCI/CBB, gyda'r adroddiad cyntaf ym mis Tachwedd 2016.

69 Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd adfyfyrio am ei drefniadau presennol yng ngoleuni'r gofynion am adrodd at y dyfodol sydd wedi eu gosod allan yn fframwaith cynllunio'r GIG am 2017-20. Yn ychwanegol at grŵp gweithredol yn goruchwylio cyflwyno'r cynllun ac yn adrodd ddwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd, rhaid cael is-bwyllgor neu grŵp o'r bwrdd i graffu a herio ar gynnydd a pherfformiad yn rheolaidd. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried a yw trefniadau presennol yr Is-Fwrdd yn gynaliadwy ac addas i gyflwyno a chraffu ar berfformiad y CTCI yng ngoleuni'r gofyniad am adrodd, effaith newidiadau yn aelodaeth y bwrdd yn 2017 a rôl y PSCCh o ran goruchwylio datblygu a chyflwyno'r cynllun strategol. Dylid hefyd ystyried yr angen i wella craffu ariannol ochr yn ochr â pherfformiad, fel y trafodwyd ym mharagraff 51, wrth ystyried unrhyw ddiwygio er mwyn cryfhau trefniadau craffu ar y CTCI a pherfformiad.

70 Yn 2015 fe wnaethom yr argymhelliad isod ynghylch craffu ar y CTCI. Mae Arddangosyn 6 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 6: Cynnydd ar argymhelliad 2015 ynghylch craffu ar y CTCI

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|
| A5 2015<br>Pennu rôl y pwyllgor perfformiad at y dyfodol gan gynnwys a yw craffu ar berfformiad a chyflwyno'r CTCI yn swyddogaeth y pwyllgor hwn neu'r Bwrdd. | Cwblhawyd camau i ymdrin â'r argymhelliad hwn, er y dylid adolygu a chryfhau digonoldeb trefniadau presennol yr Is-Fwrdd ar gyfer craffu ar gyflwyno a pherfformiad y CTCI, fel y trafodir ym mharagraff 69. |

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau o ran sicrhau digon o gapasiti yn y sefydliad i gefnogi trefniadau newid a rheoli rhaglenni

71 Mae'n hanfodol ymwneud yn effeithiol â staff, arweinyddion clinigol, cleifion, partneriaid a rhanddeiliaid eraill ar newidiadau strategol sydd yn sail i'r CTCI a chynlluniau strategol tymor hwy. Dangosodd y Bwrdd Iechyd ymrwymiad i weithio gydag eraill a chynhaliodd weithgareddau ymwneud arwyddocaol diweddar, er enghraifft, i ddatblygu gwerthoedd ac ymddygiad y sefydliad, bwrw ymlaen â chynigion ARCH a datblygu cynlluniau comisiynu ar gyfer llwybrau penodol. O ran rhaglenni newid strategol sy'n sail i'r CTCI, cytunodd y rhan fwyaf o aelodau'r bwrdd a ymatebodd i'n harolwg fod y Bwrdd Iechyd yn ymwneud yn effeithiol, ond fod lle i wneud mwy gyda'r staff a'r cleifion. Fodd bynnag, mae Fframwaith Ymwneud a Chyfathrebu'r Bwrdd Iechyd yn dechnegol wedi dyddio ac y mae angen ie adolygu a'i gyfoesi.

72 Mae'r holl raglenni newid strategol wedi eu cysylltu ag amcanion strategol ac wedi eu halinio â byrddau comisiynu, gyda rhaglen ARCH yn gyfrwng cyflwyno i rai. Fodd bynnag, nid oes un fethodoleg rhaglen na swyddfa rhaglenni ar gael, ac nid yw'r portffolio a llinellau adrodd rhaglenni newid strategol yn ymddangos mor glir ag yr oeddent dan drefniadau blaenorol y rhaglen 'Newid er Gwell'.

73 Gwelir capasiti fel rhwystr i ddatblygu swyddogaeth rhaglen newid, er bod nifer mo 'dimau' newid a gwella, gydag adnoddau ar wahân ac yn gweithredu yn annibynnol ar ei gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sgiliau ac adnoddau rheoli newid ariannol o fewn y gyfarwyddiaeth gyllid, oedd gynt â chyfrifoldeb dros gynnal rhaglen C4B;
- swyddogaeth gwella gwasanaethau dan arweiniad y prif swyddog gweithredol; a
- tîm gwella ansawdd a diogelwch newydd.

74 Yn 2015, fe wnaethom amlygu'r capasiti sylweddol yn y sefydliad sydd ei angen i gynnal datblygiadau strategol, gwaith rheoli newid a phartneriaid strategol ac ymwneud, ochr yn ochr â gwella cyflwyno gwasanaethau a pherfformiad a gwreiddio strwythurau gweithredol newydd. Bwriwyd ymlaen â phoblogi is-strwythurau'r unedau cyflwyno yn ystod 2016 a disgwylir i hyn fod yn gyflawn erbyn dechrau 2017. Fodd bynnag, yr oedd yr adolygiad arfaethedig o strwythurau corfforaethol yng nghyd-destun trefniadau rheoli gweithredol diwygiedig yn dal ar waith adeg ein gwaith maes. Bydd yn bwysig cwblhau'r adolygiad hwn cyn gynted ag sydd modd, oherwydd nad yw rôl cyfarwyddiaethau corfforaethol mewn perthynas â rôl, cyfrifoldebau ac adnoddau unedau yn cael ei ddeall yn glir eto. Fodd bynnag, yn ystod 2016 cafwyd rhai newidiadau pwysig i adnoddau corfforaethol, gan gynnwys:

- swydd gynllunio ychwanegol wedi Ebrill 2016;
- ail-alinio adnoddau gwybodaeth perfformiad a rheoli perfformiad rhwng y portffolios gweithredol; a
- hysbysebu am Gyfarwyddwr ansawdd a gwella gwasanaeth, i alinio adnoddau gwella presennol (fel y crynhoir ym mharagraff 74).

75 Datblygwyd pensaernïaeth strategaeth, comisiynu, a rheoli cyflwyno, gyda chyflwyno rhaglenni i ymateb i faterion penodol megis effeithlonrwydd a chynaliadwyedd. Mae agwedd o reoli rhaglenni yn ffordd systemaidd o drefnu a rheoli ffrydiau comisiynu a chyflwyno i gyflwyno manteision busnes. Fodd bynnag, mae cymhlethdod y trefniadau yn anodd ei fynegi, angen cryn gapasiti sefydliadol i'w gwasanaethu, ac nid yw'r holl staff yn glir am y rhyng-gysylltiadau a'r blaenoriaethau cymharol ar draws y gwahanol ffrydiau rhaglenni. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn adolygu'r gofynion am reoli'r trefniadau presennol a dwyn y rhaglenni cyflwyno a chomisiynu at ei gilydd yn well. Bydd yn bwysig i'r Bwrdd Iechyd sicrhau'r canlynol:

- deall pensaernïaeth y rhaglen;
- rheolaeth gliriach ar y rhyngwynebau comisiynu a chyflwyno; a
- digon o gapasiti i gynnal y trefniadau rheoli.

76 Yn 2015 gwnaethom yr argymhellion canlynol ynghylch datblygu strategol, capasiti sefydliadol a rheoli newid. Mae Arddangosyn 7 yn crynhoi'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 7: Cynnydd ar argymhellion 2015 ynghylch datblygu strategol, capasiti'r sefydliad a rheoli newid

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|
| A7 2015<br>Cynnal asesiad cau i lawr llawn o brosiectau strategol newid er gwell er mwyn gwneud yn siŵr, wrth i brosiectau gael eu halinio â byrddau comisiynu, nad oes bylchau trosiannol a bod unrhyw ffrydiau gwaith y rhoddwyd y gorau iddynt yn fwriadol. | Adroddwyd bod y camau wedi eu cwblhau, gyda chynllun trosiannol wedi ei arwyddo gan Fwrdd Rhaglen Newid er Gwell (C4B), cyn trosi rhaglenni newid i chwe Bwrdd Comisiynu. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud i fwrw ymlaen gyda threfniadau rheoli newid, amlygrwydd rhaglenni newid ac adrodd am eu cynnydd. |
| A8 2015<br>Cynnal asesiad risg ynghylch digonolrwydd capasiti'r sefydliad i gynnal datblygiadau strategol, rheoli newid a phartneriaethau strategol a gwaith ymwneud, ochr yn ochr â gwella cyflwyno gwasanaethau a pherfformiad. | Wrthi. Nid yw rôl a chapasiti cyfarwyddiaethau corfforaethol yng nghyswllt rolau, cyfrifoldebau ac adnoddau unedau yn cael ei ddeall yn glir eto, er y cynhelir adolygiad ar hyn o bryd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau: fod digon o gapasiti i gynnal yr agwedd rheoli rhaglenni; fod pensaernïaeth a rhyng-gysylltiadau rhwng rhaglenni yn cael eu deall; a bod blaenoriaethau cymharol yn glir. |

Effeithiolrwydd a sicrwydd y Bwrdd – mae trefniadau llywodraethiant a sicrwydd yn fras yn gadarn, er y gellid gwella mwy ar rai agweddau ac y mae newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn 2017 yn gyfle ac yn risg

77 Seilir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn ar ein hadolygiad o agwedd y Bwrdd Iechyd at fapio sicrwydd a datblygu ei fframwaith sicrwydd y bwrdd, effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethiant a'r adolygiad o gynnydd mewn ymdrin â'n hargymhellion yn 2015 yn ymwneud â llywodraethiant a sicrwydd. Mae ein canfyddiadau allweddol i'w gweld isod.

Datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd – mae gan y Bwrdd Iechyd system ddiffiniedig o sicrwydd ac y mae'n parhau i'w hadolygu a'i datblygu, er bod angen cyfoesi'r fframwaith rheoli perfformiad a bod cyfleoedd i ymestyn mapio risg a sicrwydd

78 Mae gan bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth strwythurau na phrosesau llywodraethiant i geisio a darparu sicrwydd am y gwasanaethau a ddarperir, fod risgiau yn cael eu rheoli a bod y sefydliad yn gweithredu yn unol â gofynion cyfreithiol ac eraill. Mae cyrff y GIG yn sefydliadau cymhleth ac yn gweithredu mewn amgylchedd deinamig. Mae'n bwysig felly fod byrddau yn parhau i adolygu eu trefniadau llywodraethiant a sicrwydd ac yn bodloni eu hunain fod y sicrwydd y maent yn dibynnu arnynt yn gymesur, wedi eu targedu yn briodol ac yn ymdrin â hyd a lled portffolio risg cyffredinol y sefydliad.

79 Mae mapio sicrwydd[7] yn erfyn a ddefnyddir yn gynyddol i adnabod yn systemaidd a mapio'r sicrwydd sydd ei angen ynghylch risgiau allweddol er mwyn cyrraedd amcanion y sefydliad. Gall y broses fapio helpu sefydliadau i amlygu unrhyw fylchau yn eu sicrwydd, neu ddyblygu diangen ar y prosesau sicrwydd. Mae mapio o'r fath yn helpu i ddylunio fframwaith sicrwydd effeithiol, sydd yn asio risgiau a sicrwydd i'r systemau rheoli priodol a'r trefniadau craffu.

80 Y man cychwyn yw'r datganiad clir o amcanion y sefydliad i helpu i bennu'r risgiau i gyrraedd yr amcanion. Cytunodd aelodau'r Bwrdd a ymatebodd i'n harolwg fod y Bwrdd Iechyd wedi nodi sut beth fydd llwyddiant yn erbyn yr amcanion a bod yr amcanion wedi eu mynegi mewn dull ystyrlon trwy'r CTCI. Fe gawsom yn gyffredinol fod y Bwrdd Iechyd wedi disgrifio ei amcanion corfforaethol yn weddol resymol. Mae llawer o'r amcanion corfforaethol wedi eu torri i lawr yn gydrannau ac wedi eu cysylltu â thargedau neu fetrigau. Mae'r agwedd hon yn helpu i adnabod y sicrwydd angenrheidiol er y gallai rhai datganiadau am amcanion ganoli mwy ar ddeilliannau.

81 Mae angen trefniadau rheoli risg a rheoli perfformiad corfforaethol cadarn i fod yn sylfaen i drefniadau sicrwydd effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu a chyfoesi ei strategaeth rheoli risg yn ystod 2016 yng nghyd-destun y strwythur sefydliadol newydd. Mae risgiau i amcanion wedi eu gosod allan yn y gofrestr risg corfforaethol ac fe'u rheolir trwy'r fframwaith rheoli risg, gyda chraffu ar risgiau a

[7] Trysorlys EM, Assurance Frameworks, Rhagfyr 2012

sicrwydd ar gyfer pob amcan wedi ei fapio i bwyllgorau penodol y Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn rhoi 'prawf' ar y trefniadau hyn er mwyn sicrhau fod y risgiau perthnasol yn cael eu hadolygu gan y pwyllgor perthnasol. Mae trefniadau ar gael hefyd i hybu cymhwyso'r fframwaith rheoli risg trwy'r Grŵp Sicrwydd a Dysgu. Yn ddiweddar, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen rheoli risg i ganolbwyntio ar weithredu modiwl risg Datix[8] a chefnogi unedau cyflwyno i wreiddio rheoli risg.

82 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith rheoli perfformiad. Fe'i haddaswyd yn ystod 2016 i gefnogi mesurau ar gyfer ymateb i broblemau perfformiad, yn enwedig yng nghyswllt gofal nas rhaglennwyd, canser a strôc. Arweiniodd hyn at gyflwyno adolygiadau perfformiad wythnosol o wasanaethau aciwt yn Ebrill 2016, er bod adolygiadau misol wedi parhau mewn meysydd gwasanaeth eraill. Mae'r uchod wedi goddiweddyd i raddau helaeth yr adolygiad a chyfoesiad o drefniadau rheoli perfformiad oedd ar y gweill wedi ailstrwythuro'r sefydliad yn 2015, ond y mae bellach wedi cychwyn. Dylai'r adolygiad helpu'r Bwrdd Iechyd i ofalu bod y fframwaith wedi ymaddasu'n briodol ar gyfer y strwythurau a'r amgylchedd gweithredol newydd, fod trefniadau cyfarfodydd yn gynaliadwy, a bod y cyfleoedd ehangach ar gyfer gwella craffu ar berfformiad (fel y trafodwyd ym mharagraff 70) yn cael eu hystyried.

83 Mae trefniadau ar gael i geisio a chynnal sicrwydd, ac yr oedd aelodau'r Bwrdd a ymatebodd i'n harolwg yn gadarnhaol am y ffaith fod y Bwrdd wrthi yn ystyried gofynion a materion llywodraethiant a sicrwydd. Mae system sicrwydd wedi ei sefydlu, gyda sylw yn cael ei roi yn ystod y flwyddyn i fapio risgiau lefel uchel a sicrwydd gan ddefnyddio'r model tair llinell amddiffyn[9]. Mae risgiau cyfredol yn cael eu mapio i nodau strategol a'i halinio â phwyllgorau, gydag uwch-swyddogion cyfrifol yn cael eu hadnabod a ffynonellau sicrwydd yn cael eu disgrifio yn fras. Fodd bynnag, mae cyfle i ddatblygu mwy ar yr agwedd fapio risg a sicrwydd:

- ymgorffori bygythiadau newydd ac yn y dyfodol i amcanion strategol;
- adeiladu canolbwynt cryfach ar gymuned, gofal sylfaenol, iechyd meddwl a phartneriaeth; a
- diffinio risgiau a sicrwydd yn fwy manwl.

84 Cynhaliodd y tîm gweithredol weithdy yn ddiweddar i ystyried cyfleoedd i fapio risgiau a sicrwydd, gan gydnabod y bydd hyn yn fuddiol er mwyn llunio parhad datblygiad fframwaith sicrwydd y bwrdd. Mae digwyddiad cysylltiedig datblygu'r Bwrdd ar y gweill yn gynnar yn 2017 i ystyried cymhwyso mapio risgiau a sicrwydd ymhellach.

85 Yn 2015 fe wnaethom yr argymhelliad isod ynghylch sicrwydd y bwrdd. Mae Arddangosyn 8 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

[8] Mae Datix yn weithrediad meddalwedd ddiogelwch ar gyfer rheoli risgiau sy'n ymwneud â gofal iechyd.

[9] Chartered Institute of Internal Auditors' website: Governance of risk: Three lines of defence

Arddangosyn 8: Cynnydd ar argymhelliad 2015 am sicrwydd y bwrdd

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o gynnydd |
| --- | --- |
| A3 2015<br>Gwerthuso'r newidiadau a wneir i'r system o sicrwydd, trefniadau llywodraethiant gweithredol a'r fframweithiau rheoli risg a pherfformiad o fewn chwe mis o'u gweithredu [strwythurau gweithredol newydd] | Wrthi:<br>• Mae poblogi is-strwythurau unedau wedi cymryd tipyn yn hwy nac a ragwelwyd, ond mae recriwtio yn mynd rhagddo yn rhesymegol a dylai fod wedi ei gwblhau erbyn dechrau 2017.<br>• Mae trefniadau sicrwydd wedi eu cyfoesi yn nodi strwythurau llywodraethiant, swyddi a gofynion, gan gynnwys grwpiau ansawdd a diogelwch, rheolwyr ansawdd a gwella, ac adrodd i'r grŵp Sicrwydd a Dysgu, Fforwm Ansawdd a Diogelwch, a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.<br>• Mae gwaith ychwanegol ar y gweill i ddatblygu gwelliannau a sicrwydd seiliedig ar wardiau, ar sail gwersi gan eraill (Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Gogledd Canolbarth Lloegr).<br>• Nid yw adolygiad ôl-gwblhau o strwythurau sefydliadol diwygiedig a threfniadau llywodraethiant sefydliadol (oedd i fod i'w gwblhau ym Medi 2016) eto wedi ei gwblhau ac y mae'n disgwyl i strwythurau'r is-unedau gael eu poblogi.<br>• Cyfoeswyd y strategaeth a fframwaith rheoli risg ac y mae gwaith cyfoes ac ychwanegol i gefnogi gwreiddio rheoli risg wrthi'n digwydd.<br>• Mae'r mesurau adolygu wythnosol a gyflwynwyd yn Ebrill 2016 i raddau helaeth wedi cymryd drosodd yr adolygiad fframwaith rheoli perfformiad a gynlluniwyd, ond mae bellach yn digwydd. |

Effeithiolrwydd a sicrwydd y Bwrdd – mae trefniadau llywodraethiant a sicrwydd yn fras yn gadarn, er y gellid gwella mwy ar rai agweddau ac y mae newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn 2017 yn gyfle ac yn risg

86 Mae'r Bwrdd yn parhau i ddangos arweiniad ac ymrwymiad i fod yn agored ac i wella. Mae storiâu'r cleifion yn helpu i roi canolbwynt ar y claf yng nghyfarfodydd y Bwrdd, ac y mae'r Bwrdd yn parhau i hybu gwella ansawdd a gwreiddio gwerthoedd ac ymddygiad y sefydliad. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn rhedeg yn effeithiol ac atebwyd yr holl ofynion trefniadol ffurfiol a'r rhai am adrodd blynyddol.

87 Er bod y Bwrdd yn parhau i redeg yn effeithiol yn gyffredinol, mae'n cydnabod fod mwy i'w wneud mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

- sicrhau ymateb yn brydlon i gwynion;
- gwreiddio dysgu yn y sefydliad;
- gwella gwybodaeth am y gweithlu fel sail i benderfyniadau'r Bwrdd; a
- cryfhau craffu ar berfformiad partneriaid.

88 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes yn dryloyw ac adrodd i'r cyhoedd, ac y mae'n cydymffurfio i raddau helaeth a gofynion newydd Llywodraeth Cymru am gyhoeddi gwybodaeth a ragnodwyd[10]. Mae cyhoeddi papurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi hen sefydlu, gyda phapurau pwyllgorau allweddol eraill hefyd am gael eu cyhoeddi. Ystyriwyd y rhesymeg dros bennu eitemau agenda agored neu gaeedig, megis yr angen i warchod gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif am drydydd partion neu gleifion/staff. Mae lle, fodd bynnag, i adolygu cynnwys y wefan a'i hygyrchedd, i sicrhau ei bod yn hawdd llywio drwyddi a bod y cynnwys ar y we yn gyfoes. Nid oedd rhai polisïau yn hygyrch (codi pryderon (chwythu'r chwiban) ac iechyd a diogelwch) pan wnaethom ni gynnal ein hadolygiad.

89 Mae rhaglen ddatblygu'r Bwrdd ar gael, gyda chymysgedd o gyfarfodydd briffio i'r bwrdd, amser allan i'r Bwrdd a mynediad at ddigwyddiadau dysgu Cymru-gyfan. Yr oedd y rhan fwyaf o'r sawl a ymatebodd i'n harolwg (12 o 15) yn cytuno fod y rhaglen yn gefnogol o ran datblygu sgiliau a hyder ar gyfer gwaith craffu a sicrwydd. Fodd bynnag, yr oedd un aelod o'r bwrdd yn anghytuno a dau yn niwtral, gan awgrymu fod anghenion datblygu yn cael eu hateb i'r rhan fwyaf o aelodau'r bwrdd, ond nid pob un.

90 Mae pum aelod annibynnol ar y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd diwedd eu tymor yn 2017, wedi i dri aelod newydd gael eu penodi yn 2016. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau wrth gefn i liniaru risg ac yn trafod amserlenni recriwtio a chyfnodau trosi gyda Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae risgiau arwyddocaol yn y sefyllfa o ran colli profiad ac arbenigedd, ac o ran parhad cadeiryddiaeth pwyllgorau, aelodaeth a gallu i gynnal cyfarfodydd gyda chworwm yn y flwyddyn i

[10] WHC/2016/033 – Cyhoeddi gwybodaeth ar wefannau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

ddod. Mae’n debyg y bydd angen i’r  Bwrdd Iechyd adolygu ac o bosib newid y canlynol:

- strwythurau a threfniadau presennol pwyllgorau yng ngoleuni newidiadau sydd ar y gweill yn aelodaeth y bwrdd, gan fanteisio ar y cyfle i gryfhau craffu ar berfformiad ariannol a chymhwyso camau rheoli, cyflwyno a pherfformiad y CTCI fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn; a
- rhaglen gynefino (a ddatblygwyd i gefnogi penodiadau newydd yn 2016) a sut y gall rhaglen ddatblygu’r bwrdd at y dyfodol gefnogi datblygu aelodau newydd a benodir yn 2017.

91 Hefyd, mae Ysgrifennydd profiadol iawn y Bwrdd yn ymddeol yn 2017. Hysbysebwyd y swydd hon, ond ni phenodwyd neb eto. Adolygwyd y swydd-ddisgrifiad i gynnwys cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, mae’n bwysig nad yw’r cyfrifoldebau gweithredol hyn yn gwanhau nac yn cyfyngu ar brif ffocws llywodraethiant swyddogaeth Ysgrifennydd y Bwrdd.

92 O fewn y trefniadau pwyllgor presennol, mae pwyllgorau allweddol y Bwrdd yn rhedeg yn gyffredinol effeithiol, er bod angen mwy o amser i wreiddio newidiadau diweddar a wnaed i rai pwyllgorau. Yn ystod ein gwaith yn 2016, fe welsom y canlynol:

- Mae gan bob pwyllgor gynlluniau gwaith blynyddol sy’n cael eu hystyried fel rhan o’r agenda ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor a’u haddasu yn ystod y flwyddyn i ymateb i faterion, gofynion risg neu sicrwydd. Mae Grŵp Cynghori’r Cadeiryddion[11] yn goruchwylio holl gynlluniau gwaith y pwyllgorau, gan sicrhau eu bod yn cael eu hasesu ac yn ymdrin ag unrhyw fylchau neu ddyblygu mewn sicrwydd. Mae cylchoedd gorchwyl hefyd yn cael eu hadolygu’n flynyddol.
- Mae Grŵp Cynghori’r Cadeiryddion hefyd yn cefnogi cyfathrebu rhwng pwyllgorau a chroesgyfeirio materion sy’n berthnasol i swyddogaeth craffu pwyllgor arall. Mae pob pwyllgor yn rhoi adroddiadau i’r Bwrdd gyda chadeirydd pob pwyllgor yn amlygu materion sydd angen sylw’r Bwrdd.
- Mae’r Pwyllgor Archwilio yn parhau i fod yn effeithiol o ran cefnogi trefniadau llywodraethiant a chamau mewnol y sefydliad, wedi’i gefnogi gan wasanaeth archwilio mewnol a gwrth-dwyll effeithiol, gyda rhaglen archwilio glinigol mewnol a threfniadau adrodd llawer mwy effeithiol.
- Mae’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch hefyd yn rhedeg yn effeithiol. Cafwyd gwelliannau sylweddol i’r sicrwydd ansawdd a’r trefniadau craffu sy’n sail i waith y pwyllgor hwn (Arddangosyn 9).
- Mae gwelliannau yn rhedeg y Pwyllgor Gweithlu yn dod i’r amlwg, ond heb eto wreiddio’n llawn. Mae  cefnogaeth weinyddol, a ddarperir yn awr gan Ysgrifennydd y Bwrdd, yn helpu i wella rheolaeth ar y cynllun gwaith a

[11] Cadeirydd y Bwrdd a chadeiryddion holl bwyllgorau’r bwrdd sydd ar Grŵp Cynghori’r Cadeiryddion.

rheoli'r agenda. Mae ffocws cryfach ar graffu nac yn 2015, er bod angen cryfhau mwy am wybodaeth am y gweithlu ac adrodd am sicrwydd.

93 Yn 2015 fe wnaethom yr argymhellion isod ynghylch sicrwydd ansawdd a gwybodaeth llywodraethiant. Mae Arddangosyn 9 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 9: Cynnydd ar argymhellion sicrwydd ansawdd a gwybodaeth llywodraethiant 2015

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|
| A4a 2015<br>Adolygiad o'r grwpiau rheoli sy'n adrodd i'r pwyllgor ansawdd a diogelwch, eu trefniadau goruchwylio, ac adrodd am lif sicrwydd.<br><br>A4b 2015<br>Gwerthuso rôl y grŵp dysgu a sicrwydd, grŵp llywio deilliannau clinigol a grwpiau is-bwyllgorau eraill tebyg, yng nghyd-destun yr unedau rheoli gweithredol newydd.<br><br>A4c 2015<br>Sicrhau bod adroddiadau sicrwydd i'r pwyllgor ansawdd a diogelwch o'r is-grwpiau a'r unedau gweithredol yn rheolaidd, yn safonol, amserol a chyflawn, er mwyn osgoi bylchau a tharfu ar raglen waith y pwyllgor. | Mae camau i gwrdd ag argymhellion 4 ac yn gyflawn ac yn cynrychioli peth gwaith arwyddocaol. Mae'n rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y Fforwm Ansawdd a Diogelwch (A&D) newydd, gan nad yw eto wedi llawn ymsefydlu, er y dylai'r fforwm helpu i gynnal gwell llif sicrwydd ac adrodd i'r Pwyllgor A&D. Dyma a ganfuwyd gennym:<br>• A4a: Cynhaliwyd adolygiad a rhesymoli grwpiau rheoli sydd yn adrodd i'r Pwyllgor A&D. Sefydlir fforwm weithredol A&D (sy'n adrodd i'r Pwyllgor A&D), gyda llinellau adrodd i is-grwpiau rheoli yn cael eu nodi, a chylch gorchwyl wedi ei ddrafftio.<br>• A4b: Adolygwyd y grŵp sicrwydd a dysgu (A&D) a'r grŵp llywio deilliannau clinigol (COSG), gyda'r cylchoedd gorchwyl wedi eu newid i adlewyrchu'r trefniadau rheoli gweithredol newydd. Mae'r grŵp S&D yn parhau i ddarparu cyfrwng i rannu gwersi/arferion da ar draws unedau, er mai gwaith sy'n mynd rhagddo o hyd yw hwn.<br>• 4c: Mae cynllun gwaith wedi ei ddiffinio i'r Pwyllgor S&D, wedi ei gefnogi gan restr o adrodd am sicrwydd. Ymddengys bod prydlondeb, ansawdd a llif adroddiadau sicrwydd wedi gwella, a bod llai o darfu o'r herwydd ar raglen waith y Pwyllgor. Mae pob uned wasanaeth yn gwneud cyflwyniad ar lywodraethiant ansawdd bob blwyddyn. Dylai'r Fforwm S&D helpu i gynnal y llifau sicrwydd gwell ac adrodd i'r Pwyllgor. |

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o gynnydd |
| --- | --- |
| A6 2015<br>Egluro cylch gorchwyl y pwyllgorau gwybodaeth llywodraethiant (IGC), y strwythur sy’n eu cefnogi a pha mor aml y byddant yn rhoi adroddiadau sicrwydd i bwyllgor dynodedig y bwrdd. | Bu gweithredu yn araf, ond mae bellach yn gyflawn.<br>Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y trefniadau diwygiedig, maent yn ddatblygiad cadarnhaol. Bydd yn bwysig sicrhau bod cyfarfodydd IGB yn rheolaidd, gan adrodd i’r Pwyllgor Archwilio a chefnogi aelod newydd annibynnol fel Hyrwyddwr TGCh yn 2017. Mae penodi cyfarwyddwr cynorthwyol yn rhoi mwy o amlygrwydd i waith gwybodaeth llywodraethiant.<br>Dyma a wnaethom ganfod:<br>• Ail-strwythurwyd y Pwyllgor Gwybodaeth Llywodraethiant (IGB) yn Fwrdd Llywodraethiant ar draws y Bwrdd Iechyd dan gadeiryddiaeth yr Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG). Cynhaliwyd gweithdy ym Mai 2016 i gytuno ar gylch gorchwyl yr IGB.<br>• Cyfarfu’r IGB am y tro cyntaf ym mis Hydref 2016, wedi’i ohirio o fis Gorffennaf 2016. Er bod sefydlu’r IGB wedi cymryd yn hwy na’r disgwyl, mae potensial cadarnhaol i’r trefniadau diwygiedig er nad yw gwaith yr IGB eto wedi ei sefydlu’n llawn established.<br>• Yr oedd cynrychiolaeth ac ymwneud ymysg yr aelodau yn edrych yn dda yn y cyfarfod cyntaf, er nad oedd aelod annibynnol /hyrwyddwr TGCh yn bresennol.<br>• Bydd yr IGB yn adrodd yn ffurfiol i’r Pwyllgor Archwilio.<br>• Yn dilyn ymddeoliad y rheolwr gwybodeg a’r arweinydd gwybodaeth llywodraethiant, rhoddwyd dau gyfarwyddwr cynorthwyol, dros TGCh a gwybodaeth llywodraethiant. |

## Cynnydd wrth ymdrin ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol – gweithredodd y Bwrdd Iechyd rai o'r argymhellion a wnaed yn asesiad strwythuredig 2015, ond nid yw wedi datblygu camau yn ddigonol ar gyfer eraill, yn benodol y rhai sy'n ymwneud â chynllunio ac adrodd ariannol

94 Mae ein gwaith asesiad strwythuredig yn 2016 wedi adolygu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i ymdrin â'r 10 argymhelliad a wnaed llynedd. Mae a wnelo'r argymhellion hyn ag adrannau cynharach o'r adroddiad hwn, ac fe'u disgrifiwyd yno. Wrth ddod i'n casgliad, yr ydym wedi ystyried y cynnydd a wnaed wrth ymdrin â'r holl argymhellion. Ein hasesiad cyffredinol yw: nad atebwyd dau o'r argymhellion ynghylch cynllunio ac adrodd ariannol (argymhellion 1 a 2); fod dau argymhelliad yn mynd rhagddynt ynghylch:

  - llywodraethiant gweithredol a rheoli perfformiad (argymhelliad 3); a
  - capasiti sefydliadol, datblygu strategol a threfniadau cyflwyno (argymhelliad 8);

- ymdriniwyd â chwech o argymhellion, ond:
  - yn arafach nac a fwriadwyd a bod angen mwy o waith i wreiddio'r newidiadau am sicrhau ansawdd (argymhellion 4a, 4b a 4c) a gwybodaeth llywodraethiant (argymhelliad 6); a
  - angen parhau i ganoli ar graffu'r CTCI (argymhelliad 5) a seilwaith rheoli newid (argymhelliad 7).

## Mae trefniadau da wedi eu sefydlu gan y Pwyllgor Archwilio i olrhain argymhellion archwiliadau, ond gall ymateb y rheolwyr i'r argymhellion hyn weithiau fod yn araf

95 Yn ychwanegol at adolygu'r camau a gymerwyd i ymdrin â'n hargymhellion yn asesiad strwythuredig 2015, buom hefyd yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion ein harchwiliad. Gwelsom fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau sydd wedi hen sefydlu i fonitro ymatebion y rheolwyr i argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol, a'r cynnydd a wneir yn erbyn camau y cytunwyd arnynt.

96 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiad olrhain sy'n gosod allan statws yr holl argymhellion ym mhob cyfarfod, ac fe'i defnyddir i helio cyflymdra ymateb y rheolwyr. Mae'r adroddiad yn gosod allan nifer yr argymhellion sy'n gyflawn, wrthi'n cael eu gwneud neu yn hwyr. Fe'i hadeiledir ar adroddiadau am gynnydd i'r tîm llywodraethiant ariannol, gyda'r uwch-swyddog perthnasol yn ei arwyddo/ Mae rheolwyr yn mynychu'r Pwyllgor yn rheolaidd i gyflwyno ymateb y rheolwyr, gyda chyfoesiad am gynnydd naill ai yn cael ei roi fel eitem yng nghynllun gwaith y Pwyllgor, neu'n cael ei roi fel ymateb i unrhyw bryderon gan y Pwyllgor am gamau nas cymerwyd neu arafwch. Yr oedd ein hadolygiad o gynnydd ar argymhellion asesiad strwythuredig 2015 yn gyson i raddau helaeth â statws yr argymhellion a nodwyd yn erfyn olrhain archwilio'r Bwrdd Iechyd.

97 Fodd bynnag, yn ystod 2016, araf fu'r datblygiad o ran rhai ymatebion gan y rheolwyr. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi rhoi trefniadau newydd ar waith

i gadarnhau ymateb y rheolwyr gydag uwch-swyddogion arweiniol, a goruchwylio amseru priodol i adolygiadau dilynol. Bu mynd ati yn weithredol fel hyn yn effeithiol o ran codi proffil argymhellion yr archwiliad a phwysigrwydd cyrraedd eu deilliannau a'u manteision arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r trefniant presennol yn ddibynnol i raddau helaeth ar ymrwymiad personol Cadeirydd y Pwyllgor.

98 Cawsom hefyd fod trefniadau ar gael i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch dderbyn adroddiadau arolygiadau Arolygiaeth Iechyd Cymru a rhai gan y Cyngor Iechyd Cymuned, yr Ombwdsmon ac eraill, er nad oes dull ffurfiol o olrhain argymhellion ar gael. Nid oedd trefniadau ar gyfer craffu a monitro adroddiadau gwella perfformiad Unedau Cyflwyno mor glir. Er bod adroddiadau Unedau Cyflwyno yn cael eu derbyn gan y grwpiau gweithredol a'r byrddau cyflwyno perthnasol, nid ydynt yn cael eu derbyn fel mater o drefn gan bwyllgor o'r Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio gwella'r trefniadau craffu a sicrwydd ar gyfer gwaith Unedau Cyflwyno.

# Atodiad 1

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2016

Gosodir ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i mewn yma unwaith i dempled yr ymateb gael ei gwblhau. Byd dyr atodiad hwn yn ffurfio rhan o'r adroddiad terfynol a gyhoeddir ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru unwaith i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Bwrdd neu bwyllgor perthnasol o'r bwrdd.

Arddangosyn 10: argymhellion  asesiad strwythuredig 2016 ac ymateb y rheolwyr

| Cyf | Deilliant/mantais arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Cynllunio ac adrodd ariannol cadarn | Sicrhau yr ymdrinnir â'r ddau argymhelliad heb ymdrin â hwy ers 2015 ynghylch cynllunio ac adrodd ariannol.<br>• A1 2015: Egluro'r rhagdybiaethau cynllunio ariannol sy'n sail i'r CTCI, gan gynyddu pwysau cost, bylchau cyllido yn lledu, a risg gyffredinol na | Ie | Do | Camau a nodwyd:<br>• Rhagdybiaethau cynllunio ariannol wedi'u nodi yn adran ariannol y cynllun Blynyddol.<br>• Cynllun adnoddau dros dro i gynnwys rhagor o fanylion am ragdybiaethau cynllunio ariannol.<br>• Mae adolygiad o Bapurau Bwrdd ar draws Cymru wedi'i gynnal ac mae Papur Bwrdd mewn fformat diwygiedig yn ei le bellach.  Mae'r papur llawn wedi'i gynnwys yn sesiwn y Bwrdd Cyhoeddus bellach.<br>• Bydd hyn yn cael ei adolygu ymhellach ar ôl cael canllawiau arfer gorau gan SAC ar gynnwys delfrydol ym mhapurau ariannol y bwrdd. | Ebrill 2017<br><br>Chwefror 2017<br><br>Cyn gynted ag y bydd y canllawiau | Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Cyfarwyddwr Cyllid |

| Cyf | Deilliant/mantais arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | fydd y CTCI yn ariannol gytbwys; ac<br>• A2 2015: Gwella adrodd ariannol i'r Bwrdd, i roi eglurhad cliriach am unrhyw newidiadau i'r sefyllfa ariannol, perfformiad ar gynlluniau arbedion a chamau unioni i ymdrin ag unrhyw lithriad. | | | | wedi'u cyhoeddi | |
| A2 | Monitro rhaglen gyfalaf a gymeradwyir yn gadarn | Datblygu rhaglen gyfalaf am 2017-18 a gymeradwyir gan y Bwrdd yn ffurfiol ac a gefnogir gan adrodd rheolaidd ar berfformiad | Ie | Do | Cafodd y CTCI drafft ei gymeradwyo gan y Bwrdd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer trafodaeth bellach, ac fel y mae'r Adroddiad yn cydnabod, cafodd y rhaglen gyfalaf ei chynnwys yn y CTCI drafft.<br>Bydd rhaglen gyfalaf 2017/18 yn cael ei chynnwys fel rhan o'r Cynllun Blynyddol i'w ystyried gan y Bwrdd ar 30 Mawrth 2017. | Mawrth 2017 chwarterol parhaus. | Cyfarwyddwr Strategaeth |

| Cyf | Deilliant/mantais arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ariannol a heb fod yn ariannol, risgiau, a chyflwyno'r rhaglen gyfalaf yn gyffredinol. | | | Bydd adroddiad chwarterol ar y rhaglen gyfalaf (mawr a dewisol), gan gynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i'r cynllun a risgiau, yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd yn chwarterol. Mae hyn yn ychwanegol at yr adrodd cyffredinol yn erbyn y Cynllun Blynyddol. | Gorffennaf 2017 ymlaen | Cyfarwyddwr Strategaeth |
| A3 | Craffu cryfach ar gyllid, cyflwyno'r CTCI a pherfformiad | a. Craffu ariannol: Ystyried sut y gellir craffu'n well ar wybodaeth ariannol ynghyd â darparu gwell gwybodaeth am berfformiad a mwy o sicrwydd i'r Bwrdd ar y sefyllfa ariannol, effaith penderfyniadau ariannol a bod camau rheoli ariannol yn cael | Ie | Do | Ar lefel weithredol bydd gwell hygyrchedd i ddata gweithgarwch a pherfformiad drwy'r defnydd o ddangosfyrddau yn cefnogi craffu. Yn ogystal, bydd adolygiad ailseilio Cyllideb ar gyfer 2017-18 yn gwella'r fframwaith atebolrwydd<br>• Adolygu trefniadau gwybodaeth busnes er mwyn gwella ansawdd data a symleiddio adrodd i'r Bwrdd i gynorthwyo â chraffu.<br>• Mae meysydd perfformiad yn cael eu craffu gan bwyllgorau penodol e.e. Ansawdd a Diogelwch/Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, gyda materion allweddol yn cael eu hadrodd ym mhob cyfarfod Bwrdd. Bwrdd Adfer a Chynaliadwyedd wedi'i sefydlu (wedi'i gadeirio gan Gadeirydd ac yn cynnwys Is-Gadeirydd i graffu ar berfformiad gweithredol ac ariannol. Bydd y Bwrdd | Ebrill 2017<br><br>Hydref 2017<br><br>Ebrill 2017 | Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Deilliant/mantais arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | eu cymhwyso'n gadarn. | | | yn cadw goruchwyliaeth o'r holl faterion perfformiad.<br>• Y Grŵp Cynghori Cadeiryddion i barhau i adolygu'r trefniadau'n rheolaidd, yn sgil y trosiant o ran Aelodau Nad Ydynt yn Swyddogion yn 2017 ac ystyried sefydlu Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Tachwedd 2017 pan fydd yr holl benodiadau yn eu lle | Tachwedd 2017 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| | | b. Craffu ar CTCI: adolygu'r trefniadau presennol i sicrhau yr atebir gofyniad Fframwaith Cynllunio'r GIG am 2017-20 ar i is-bwyllgor craffu ar gynnydd a pherfformiad y CTCI yn llawn. | Ie | Do | Er bod y trefniadau cynllunio ar gyfer y llynedd wedi'u cryfhau a bod hyn yn cael ei gydnabod bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach ar gyfer 2018-19 ac ar ôl hynny.<br>Cyflwynir adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd Iechyd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Blynyddol, yn ogystal â thrwy drefniadau adrodd Bwrdd a Pherfformiad Pwyllgor Bwrdd yn rheolaidd.<br>Bydd y Bwrdd Adfer a Chynaliadwyedd yn monitro perfformiad ariannol a chyffredinol, wrth aros am yr adolygiad o drefniadau pwyllgor gan y Grŵp Cynghori Cadeiryddion | Mehefin 2017<br>Tachwedd 2017 | Cyfarwyddwr Strategaeth<br>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| | | c. Craffu ar berfformiad: yn dilyn atal y | Ie | Do | Mae'r Pwyllgor Perfformiad wedi cael ei atal ac mae'r trefniadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Grŵp Cynghori | Mawrth 2017 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Deilliant/mantais arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pwyllgor Perfformiad ac yng nghyd-destun newidiadau i'r aelodaeth annibynnol yn 2017, ail-asesu trefniadau craffu ar berfformiad ac a ddylai craffu aros yn un o swyddogaethau'r Bwrdd neu gael ei gefnogi gan drefniadau pwyllgor. | | | Cadeiryddion. Ar hyn o bryd mae meysydd perfformiad yn cael eu craffu gan bwyllgorau penodol e.e. Ansawdd a Diogelwch/Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Bydd y Bwrdd Adfer a Chynaliadwyedd a sefydlwyd (wedi'i gadeirio gan Gadeirydd ac yn cynnwys Is-Gadeirydd) yn craffu ar berfformiad gweithredol ac ariannol. Bydd y Bwrdd yn cadw goruchwyliaeth o'r holl faterion perfformiad.<br>Yn dilyn penodi'r 5 Aelod newydd nad ydynt yn Swyddogion y disgwylir penodi aelodau newydd yn eu lle yn 2017 ystyrir sefydlu Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. | Tachwedd 2017 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| A4 | Cysylltiadau cliriach rhwng rhaglenni cynllunio, comisiynu a chyflwyno a digon o gapasiti i gynnal y | a. Sicrhau digon o herio trwy gyfrwng y Pwyllgor Strategaeth, Cynllunio a Chomisiynu am sut y cyrhaeddir | Ie | Do | O ganlyniad i'r gwaith sy'n cael ei wneud i ystyried aeddfedu comisiynu, cytunwyd y bydd comisiynu'n cael ei ailgysoni i gynorthwyo gweithgarwch prif ffrwd y Bwrdd Iechyd o ran Adfer a Chynaliadwyedd. | Mehefin 2017 | Cyfarwyddwr Strategaeth |

| Cyf | Deilliant/mantais arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | trefniadau a chyflwyno ar ddigon o gyflymdra | penderfyniadau comisiynu a'u cydbwyso yn erbyn blaenoriaethau cyflwyno cyfredol. | | | | | |
| | | b. Gwella eglurder a dealltwriaeth am benderfyniadau ynghylch ail-gomisiynu a datgomisiynu o fewn cylchoedd cynllunio a rôl y grŵp strategaeth gweithredol. | Ie | Do | O ganlyniad i'r gwaith sy'n cael ei wneud i ystyried aeddfedu comisiynu, cytunwyd y bydd comisiynu'n cael ei ailgysoni i gynorthwyo gweithgarwch prif ffrwd y Bwrdd Iechyd o ran Adfer a Chynaliadwyedd. | Mehefin 2017 | Cyfarwyddwr Strategaeth |
| | | c. Cryfhau'r capasiti rheoli newid er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw ofynion sy'n deillio o | Ie | Do | Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd wedi'i benodi wedi'i gefnogi gan dîm bach a chyfraniad gan ymgynghorwyr allanol.<br>Swydd gwella benodol wedi'i sefydlu yn Ysbyty Treforys ar gyfer gofal heb ei drefnu | Ar waith | Prif Weithredwr Dros Dro |

| Cyf | Deilliant/mantais arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ymyriad wedi ei dargedu. | | | Adolygu'r adnodd cynllunio a gwella er mwyn cysoni â blaenoriaethau allweddol | Yn dechrau ym mis Ebrill 2017<br><br>Yn gysylltiedig â chytuno ar gynllun 2017-18 | |
| | | d. Sicrhau gwell dealltwriaeth o'r bensaernïaeth, rhyngwynebau a blaenoriaethau cymharol ar draws rhaglenni strategaeth, comisiynu, newid a chyflwyno, | Ie | Do | Mae amcanion corfforaethol clir wedi'u sefydlu ar gyfer cynllun blynyddol 2017-18 a bydd yr holl raglenni strategol, comisiynu, newid a chyflwyno yn cael eu hailganolbwyntio ar gyflawni'r amcanion hyn.<br>Bydd y trefniadau o ran cyfarfodydd yn cael eu symleiddio ochr yn ochr â'r gwaith hwn a bydd trawsgyfathrebu yn cael ei sicrhau drwy'r holl raglenni yn adrodd i'r Grŵp Adfer a Chynaliadwyedd sy'n cynnwys yr holl gyfarwyddwyr gweithredol a thimau uned | Dechreuwyd – dyddiad gorffen mis Mai<br><br>Mai 2017 | Prif Weithredwr Dros Dro<br><br>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Deilliant/mantais arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gyda digon o gapasiti sefydliadol i roi gwasanaeth i'r trefniadau rheoli. Dylai hyn gynnwys adolygu'r gofynion cyfredol o ran cyfarfodydd. | | | | | |
| A5 | Fframweithiau ymwneud clir a chyfredol | Cyfoesi'r fframwaith ymwneud a chyfathrebu a chwblhau datblygu cynllun ymwneud strwythuredig ar gyfer datblygu'r CTCI | Ie | Do | Mae trefniadau ar waith i ymwneud ag Unedau Cyflawni, Awdurdodau Lleol, y trydydd sector a'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus<br>Rydym yn cytuno ar egwyddorion gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer y lefel o ymwneud sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol newidiadau gwasanaeth i sicrhau lefelau cynnar a chyson o ymwneud ar draws Dyledion ac Unedau Corfforaethol. Bydd hyn yn cael ei ddogfennu mewn fframwaith ymgysylltu a chyfathrebu wedi'i ddiweddaru | Gorffennaf 2017 | Cyfarwyddwr Strategaeth |

| Cyf | Deilliant/mantais arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A6 | Adrodd cyhoeddus hygyrch | Adolygu'r wefan i sicrhau hygyrchedd, rhwyddineb llywio a bod cynnwys y we (gan gynnwys polisïau a dogfennau cyhoeddedig) yn gyfoes. | Ie | Do | Yn y misoedd diwethaf mae dros 200 o dudalennau gwe a oedd wedi dyddio neu ddim yn berthnasol wedi'u dileu. Cysylltir yn rheolaidd â holl unedau'r bwrdd iechyd a (tan yn ddiweddar) cysylltir yn rheolaidd â chyfarwyddiaethau gyda chais i adolygu cynnwys eu tudalen, gan bwysleisio pwysigrwydd cael gwybodaeth gyfoes ar y wefan. Pan fydd gwybodaeth gyfoes ar gael bydd y wefan yn cael ei diwygio ar unwaith. Mae'r hafan wedi'i hadolygu hefyd, i ddileu dyblygu a symleiddio dolenni i dudalennau.<br><br>O ran hygyrchedd, gellir cynyddu maint y ffont (drwy ap ar frig y wefan). Mae ganddi gyfleuster Darllen yn Uchel hefyd. Mae hygyrchedd y safle yn cael ei arwain gan safonau llywodraeth ar Ganllawiau Hygyrchedd Cynnwys ar y We. Dyma fanylion llawn am hygyrchedd ein gwefan: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/accessibility/ | Cwblhawyd | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| | | | | | Mae'r llwyfan a ddefnyddir gan ein gwefan, Cascade, yn llwyfan GIG Cymru a gyflenwir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, ac fe'i defnyddir gan fwyafrif sefydliadau GIG | Ar ôl cwblhau'r adolygiad | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Deilliant/mantais arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cymru. Cydnabyddir bod y llwyfan wedi dyddio bellach, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cais bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cynnal adolygiad o'r llwyfan a gynigir i sefydliadau GIG Cymru. Mae'r adolygiad hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. | | |

| Cyf | Deilliant/mantais arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A7 | Goruchwylio clir o ymatebion y rheolwyr i adroddiadau Unedau Cyflwyno | Datblygu trefniadau i oruchwylio a chraffu ar adroddiadau Unedau Cyflwyno ac ymatebion cysylltiedig y rheolwyr | Ie | Do | Fel mesur dros dro bydd adroddiadau'r Unedau Cyflwyno ac ymatebion y rheolwyr yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Adfer a Chynaliadwyedd, wrth aros am adolygiad o drefniadau Pwyllgor y bwrdd | Ebrill 2017 | Prif Swyddog Gweithredu |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru